Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 125/2025

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2025

# Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: adroddiad synthesis cam 1

This document is also available in English.

Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: adroddiad synthesis cam 1

Awduron: Brett Duggan, Hefin Thomas a Dr Felicity Morris (Arad); Athro Cyswllt Claire Sinnema (Prifysgol Auckland); Yr Athro David Egan (Prifysgol Metropolitan Caerdydd); Yr Athro Mark Priestley (Prifysgol Stirling)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Duggan, B; Thomas, H; Morris, F; Sinnema, C; Egan, D; Priestly, M. (2025) Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: adroddiad synthesis cam 1. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 125/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-ffurfiannol-y-cwricwlwm-i-gymru-adroddiad-synthesis-cam-1

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Cwricwlwm

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000253213

E-bost: ymchwil.cwricwlwm@llyw.cymru

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ........ 5

Cefndir a methodoleg ........ 5

Prif ganfyddiadau ........ 7

Materion i’w hystyried ........ 15

2. Cyflwyniad ........ 18

Cefndir i ddiwygiadau Cwricwlwm i Gymru ........ 18

Trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol ........ 21

3. Methodoleg y synthesis ........ 23

4. Arferion cynllunio cwricwlwm ........ 32

5. Arferion addysgegol ........ 42

6. Arferion asesu ........ 47

7. Galluogwyr a chyfyngiadau wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru ........ 51

8. Deilliannau cynnar ........ 59

Beth mae'r gwerthusiad yn ei ddweud wrthym am ddeilliannau cynnar ar gyfer dysgwyr yn sgil diwygio'r cwricwlwm? ........ 59

Beth mae'r gwerthusiad yn ei ddweud wrthym am ddeilliannau cynnar ar gyfer rieni a gofalwyr yn sgil diwygio'r cwricwlwm? ........ 64

Beth yw'r effeithiau ar ymarferwyr? ........ 66

9. Casgliadau ........ 69

10. Materion i'w hystyried ........ 75

Atodiad A: Cyfeiriadau ........ 78

## Geirfa

**ADY**

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**AHY**

Addysg heblaw yn yr ysgol – mae cyfeiriadau at AHY/darpariaeth AHY yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ddarpariaeth AHY mewn UCD a heb fod mewn UCD

**Astudiaethau ansoddol**

Mae hyn yn cyfeirio at y pedwar adroddiad astudiaeth ansoddol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025

**Dysgwr anabl**

Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw ddysgwr y mae ei rieni wedi ateb 'Ie' mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg a ofynnodd a oeddent yn credu bod gan eu plentyn anawsterau dysgu neu anableddau sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'w plentyn ddysgu.

**Gweithwyr cymorth dysgu**

Gweithwyr cymorth dysgu – a ddefnyddir i gyfeirio at gynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr addysgu lefel uwch

**Maes/Meysydd**

Maes/Meysydd Dysgu a Phrofiad

**Modelu hafaliadau strwythurol**

Techneg ystadegol gymhleth a ddefnyddir i archwilio perthnasoedd rhwng setiau grwpio o gwestiynau (ffactorau) yn yr arolwg i archwilio cryfder y berthynas rhwng y rhain.

**Ymarferwyr**

Defnyddir i gyfeirio at uwch arweinwyr, athrawon a gweithwyr cymorth dysgu.

**Ymchwil ansoddol**

Mae hyn yn cyfeirio at y pedwar adroddiad astudiaeth ansoddol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 a thystiolaeth o ymchwil teithiau cwricwlwm.

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cefndir a methodoleg

1.1. Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i arwain gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru, gan gydweithio gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac Ymgynghoriaeth AlphaPlus.

1.2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig synthesis o dystiolaeth gwerthuso a gasglwyd rhwng mis Mai 2024 a mis Medi 2025 yn ystod cam cyntaf y gwerthusiad ffurfiannol. Strwythurwyd yr adroddiad ar sail adrannau y theori newid, a ddatblygwyd er mwyn cynorthwyo'r gwerthusiad o'r diwygiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru, ac yn benodol:

- arferion cynllunio cwricwlwm, arferion addysgegol ac arferion asesu
- galluogwyr a chyfyngiadau
- deilliannau cynnar

**Methodoleg**

1.3. Mae'r synthesis hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gweithgarwch ymchwil canlynol, a phan fo hynny'n berthnasol, ar gyhoeddiadau.

- **Pedair astudiaeth ansoddol gydag ysgolion a lleoliadau, yn canolbwyntio ar:**
  - Tegwch a chynwysoldeb o fewn y Cwricwlwm i Gymru
  - Cynllunio cwricwlwm ac asesu ac addysgeg yn y Cwricwlwm i Gymru
  - Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion
  - Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru

  Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr astudiaethau ansoddol hyn yn ystod yr haf a hydref 2024, a chyhoeddwyd adroddiadau ym mis Gorffennaf 2025.

- Arolwg o 925 o arweinwyr uwch ac athrawon
- Arolwg o 1094 o rieni/gofalwyr a 757 o'u plant (Derbyn i Flwyddyn 9)[Troednodyn1]

[1] Cynlluniwyd cwestiynau addas i oedran, gyda rhai amrywiadau o ran pa gwestiynau a ddangoswyd, a geiriad y cwestiynau a gyflwynwyd, i ddysgwyr o wahanol oedrannau

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer y ddau arolwg rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024 a chyhoeddwyd y ddau adroddiad ym mis Rhagfyr 2025.

- Ymchwil astudiaeth achos teithiau cwricwlwm: mae'r rhan hon o'r gwaith ymchwil yn cynnwys ymchwil hydredol gyda sampl o 10 ysgol dros dair ton ymgysylltu yn ystod yr haf/hydref 2024 a 2025, a bwriedir cynnal ton arall yn 2026. Hyd yn hyn, mae'r gwaith maes yn cynnig cipolwg cyfoethog, felly mae rhai canfyddiadau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Bwriedir paratoi adroddiadau unigol am y newidiadau a arsylwyd ar draws tonnau tua diwedd 2026.

1.4. Ar gyfer y synthesis hwn, dadansoddwyd canfyddiadau'r chwe adroddiad y cyfeiriwyd atynt uchod a'r data a gasglwyd yn ystod gwaith ymchwil gydag ysgolion teithiau cwricwlwm trwy gyfrwng chwiliadau systematig gan ddefnyddio meddalwedd NVivo. Datblygwyd termau chwilio mewn ffordd ailadroddol, gan ddefnyddio dulliau diddwythol ac anwythol, a hysbyswyd gan y derminoleg a ddefnyddir yn y theori newid yn ogystal â'r offerynnau ymchwil a'r data a gasglwyd.

1.5. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at gyfrannau (e.e. 'lleiafrif', 'mwyafrif', 'mwyafrif helaeth') gan ddefnyddio'r un trothwyon ag a ddefnyddir yn yr adroddiadau arolwg. [Troednodyn 2] Defnyddir yr ymadrodd 'astudiaethau ansoddol' wrth gyfeirio at y pedwar adroddiad ansoddol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 yn unig. Defnyddir 'ymchwil ansoddol' wrth gyfeirio ar y cyd at y bedair astudiaeth ansoddol a gyhoeddwyd a'r dystiolaeth o waith ymchwil teithiau cwricwlwm. Defnyddir y term 'ymarferwyr' wrth gyfeirio ar y cyd at arweinwyr uwch, athrawon a gweithwyr cymorth dysgu. Mae cyfeiriadau at 'dystiolaeth' yn dynodi tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru yn hytrach na thystiolaeth ehangach, er enghraifft gwaith ymchwil academaidd neu gyhoeddiadau gan sefydliadau eraill yn y sector addysg yng Nghymru.

### Cyfyngiadau methodolegol

1.6. Mae'r adroddiad yn amlygu cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r astudiaethau a'r dull gweithredu, sef:

---

[2] 'mwyafrif helaeth' = 85% neu fwy; 'mwyafrif' = rhwng 59% ac 84%; 'tua hanner' = rhwng 42% a 58%; 'lleiafrif' = rhwng 15% a 41%; 'lleiafrif bach = 15% neu lai. Dylid nodi na ddefnyddir y disgrifwyr hyn gyda chanfyddiadau sy'n manteisio ar ffynonellau tystiolaeth ansoddol, lle y defnyddir termau 'rhan fwyaf', 'nifer' neu 'rai' i ddynodi mynychder canfyddiadau neu bwysau tystiolaeth.

- Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau yn cynnig cipolwg o arferion yn ystod proses iteraidd ac esblygol o wireddu cwricwlwm, sy'n cyfyngu ar y gallu i archwilio cynnydd dros amser
- Er mwyn lleihau'r faich ar gyfranogwyr gymaint ag y bo modd, ni fu modd treiddio i ymatebion cyfranogwyr yn llawn am bob pwnc
- Mae lefelau sampl yn yr astudiaethau ansoddol yn golygu, er bod y canfyddiadau ansoddol yn cynnig dirnadaeth gyfoethog a manwl o brofiadau a phersbectifau cyfranogwyr, a'r cyd-destun y tu ôl i'r rhain, nad oes modd eu cyffredinoli i'r boblogaeth gyfan. Mae'r rhain wedi cael eu cyfuno gydag ymatebion i'r arolwg er mwyn cynnig ehangder a dyfnder o ran tystiolaeth.
- Nid oedd rhan fwyaf y gwaith ymchwil ansoddol wedi cynnwys persbectifau dysgwyr; caiff safbwyntiau dysgwyr a rhieni/gofalwyr eu harchwilio yn fwy trwy gyfrwng gwaith ymchwil pellach a gynlluniwyd
- Nid oedd yr arolwg ymhlith dysgwyr wedi cynnwys y rhai dan oedran Derbyn (3-4 oed)
- Ceir risg tuedd wrth ddethol ar draws y gwerthusiad; efallai mai ysgolion a rhieni/gofalwyr a ddewisodd gymryd rhan oedd y rhai a oedd wedi ymgysylltu yn fwy neu, yn hytrach, y rhai a oedd wedi cael eu cymell i amlygu pryderon

## Prif ganfyddiadau

### Arferion cynllunio cwricwlwm

1.7. Mae canfyddiadau'n dangos bod nifer o ysgolion wedi gwneud newidiadau sylweddol i gynllun eu cwricwlwm o ganlyniad i Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Adroddwyd bod gweithgarwch cynllunio cwricwlwm wedi cynnwys y pedwar diben; trefnwyd cwricwla mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad a chan ymateb i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer pob Maes. Roedd nifer o arweinwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd i deilwra dysgu i anghenion dysgwyr, gan adlewyrchu canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru hefyd. Fodd bynnag, gwelwyd amrywioldeb o ran y tybiaethau ymhlith y rhai mewn gwahanol ysgolion ac mewn gwahanol rolau ynghylch graddau'r newidiadau i gwricwla ysgolion.

1.8. Mae'r dystiolaeth werthuso yn dangos bod ysgolion yn cynnwys dysgwyr, ac i raddau llai, rhieni a'r gymuned ehangach wrth gynllunio cwricwlwm, ond bod y cyswllt hwn yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig o ran ei gwmpas a'i natur.

1.9. Adroddwyd bod cydweithio wedi bod yn rhan ganolog o ddulliau nifer o ysgolion wrth gynllunio cwricwlwm, gan gynnwys cydweithio rhwng athrawon o fewn ysgolion yn bennaf, ac i raddau llai, trwy gyfrwng gweithgarwch ysgol-i-ysgol er mwyn cynorthwyo gweithgarwch cynllunio cwricwlwm. Ystyriwyd yn eang bod gweithgarwch ar y cyd yn ffactor pwysig wrth gynorthwyo gwaith i gynllunio a gwireddu cwricwlwm, gan helpu i feithrin ymgysylltu ac ymddiriedaeth, a chan hyrwyddo myfyrio, a hwyluso dysgu ar y cyd.

1.10. Nododd mwyafrif yr arweinwyr uwch a thua hanner yr athrawon a holwyd bod y dull gweithredu yn eu hysgol nhw wedi cynnwys nifer o arferion a gydnabyddir yn eang fel rhai sy'n cynorthwyo trylwyredd wrth gynllunio cwricwlwm, er enghraifft ymholi proffesiynol, defnyddio gwaith ymchwil addysgol neu rannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau lleol/clystyrau ysgolion.

1.11. Adroddodd mwyafrif yr arweinwyr uwch a'r athrawon a holwyd bod dealltwriaeth ar y cyd o fewn eu hysgolion ynghylch y ffordd y mae cwricwlwm eu hysgol yn cynorthwyo eu dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y pedwar diben.

1.12. Roedd gwaith ymchwil ansoddol yn dangos bod nifer o ysgolion wedi adrodd bod eu cwricwla yn ceisio cynnig addysg eang a chytbwys a phrofiad dysgu holistaidd, gan adlewyrchu dyheadau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer y pedwar diben a ffocws ar y cyd-destun lleol ac amgylcheddau effeithiol.

1.13. Canfu gwaith ymchwil ansoddol enghreifftiau amrywiol o ddulliau gweithredu integreiddiol wrth gynllunio cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys dulliau gweithredu a oedd yn integreiddio cynllunio cwricwlwm, addysgeg ac asesu; dulliau gweithredu a oedd yn ceisio integreiddio pynciau, disgyblaethau neu Feysydd fel rhan o waith cynllunio; a dulliau gweithredu a oedd yn integreiddio elfennau o'r Fframwaith.

**Arferion addysgegol**

1.14. Adroddodd nifer o arweinwyr uwch ac athrawon lefelau hyder cymharol uchel am y ffaith bod arferion addysgegol yn eu hysgolion yn adlewyrchu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Roedd tua tri chwarter yr ymatebwyr yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgegol, neu arfer athrawon yn eu hysgol, yn adlewyrchu'r pedwar diben, datganiadau yr hyn sy'n bwysig, y 12 egwyddor addysgegol ac egwyddorion cynnydd. Roedd data o'r arolwg yn datgelu rhywfaint o amrywiad yn ôl rôl: roedd cyfran gyson uwch o arweinwyr uwch, o'u cymharu ag athrawon, yn cytuno bod eu

harferion addysgegol, neu arferion athrawon yn eu hysgol, yn cyd-fynd â’r Fframwaith. Roedd hyn yn adlewyrchu’r patrwm cyffredinol a arsylwyd yn y data o’r arolwg, lle y mynegwyd safbwyntiau mwy cadarnhaol gan arweinwyr uwch o’u cymharu ag athrawon.

1.15. Canfu’r gwerthusiad newidiadau sylweddol mewn ysgolion o ran arferion addysgegol er mwyn ymateb i’r Cwricwlwm i Gymru. Adroddwyd bod y newidiadau hyn wedi cynnwys mwy o ffocws ar ymholi, dysgu drwy brofiad, a dulliau dysgu dilys, yr oeddent yn aml yn cael eu cynorthwyo gan ymarferwyr yn rhoi sylw manylach i ddiben y cynnwys a addysgir ac anghenion eu dysgwyr.

1.16. Adroddodd rhan fwyaf yr ysgolion a fu’n rhan o’r gwaith ymchwil ansoddol eu bod yn defnyddio addysgegau a strategaethau gwahaniaethol er mwyn ymateb i anghenion a diddordebau dysgwyr unigol. Roedd yr ysgolion hyn yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith adolygu a hunanwerthuso cyson er mwyn sicrhau bod eu harferion addysgegol yn bodloni anghenion dysgwyr.

1.17. Mae ymarferwyr wedi rhoi sylw sylweddol i ddatblygu dulliau addysgegol sy’n helpu i sefydlu a chynnal gweithgarwch ymgysylltu dysgwyr. Roedd ymarferwyr ar draws lleoliadau amrywiol a oedd wedi cymryd rhan yn yr astudiaethau ansoddol wedi disgrifio ymdrechion i sicrhau ymgysylltu trwy gyfrwng ffocws ar brofiadau a oedd yn berthnasol, yn ddilys ac yn bwrpasol.

1.18. Disgrifiodd rhai cyfranogwyr cynradd ac uwchradd yn yr astudiaethau ansoddol newid mewn pwyslais o ran dulliau addysgegol er mwyn cynnwys addysgu uniongyrchol neu dan arweiniad ymarferydd law yn llaw â ffocws cynyddol ar yr hyn a ddisgrifiwyd mewn sawl ffordd fel dulliau sy’n canolbwyntio ar y dysgwr neu’r ‘athro fel hwylusydd’. Mae hyn yn cyd-fynd â’r egwyddorion addysgegol a nodir yng Nghwricwlwm i Gymru, sy’n datgan bod dysgu ac addysgu da yn golygu ‘defnyddio cyfuniad o ddulliau gweithredu, gan gynnwys addysgu uniongyrchol’.

1.19. Er gwaethaf addasiadau i arfer, gwelir amrywioldeb ar draws y system o hyd o ran y newidiadau hyn. Mae’r amrywioldeb hwn yn amlwg rhwng y cynradd a’r uwchradd: yn gyffredinol, adroddodd ysgolion cynradd eu bod wedi mabwysiadu dulliau mwy holistaidd a rhyngddisgyblaethol; er bod ysgolion uwchradd wedi adrodd am newidiadau i arfer hefyd, gwelwyd llai o dystiolaeth o newid ar raddfa eang.

**Arferion asesu**

1.20. Bu newidiadau sylweddol i arferion asesu, gan gynnwys datblygiad modelau asesu newydd, a chyflwyno arferion newydd, a hysbysir gan Fframwaith Cwricwlwm i

Gymru ac sy'n canolbwyntio ar ddeall a chynorthwyo cynnydd dysgwyr unigol. Er y gwnaethpwyd newidiadau i brosesau a modelau asesu, roedd ymarferwyr yn cydnabod yr angen i barhau i adolygu a mireinio trefniadau asesu a'r cwricwlwm.

1.21. Rhoddwyd adroddiadau amrywiol gan y rhai mewn gwahanol gyd-destunau a rolau. Canfu'r gwerthusiad bod arweinwyr uwch ac athrawon mewn ysgolion uwchradd wedi adrodd eu bod wedi profi heriau wrth ddatblygu arferion asesu dan y trefniadau newydd yn fwy cyson na'r rhai mewn ysgolion cynradd.

1.22. Ar draws nifer o ysgolion a lleoliadau, esboniodd arweinwyr uwch ac athrawon bod newidiadau i arferion asesu wedi cynnwys newid amlwg o asesu crynodol ac sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad, tuag at ddulliau mwy ffurfiannol ac unigoledig. Roedd nifer o ysgolion a lleoliadau yn barnu bod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn cynorthwyo newid cadarnhaol tuag at ddulliau mwy holistaidd wrth asesu ar gyfer pob dysgwr, yn enwedig ymhlith arweinwyr uwch ac athrawon mewn ysgolion cynradd ac mewn darpariaeth AHY, lle'r ystyriwyd bod arferion asesu wedi'u teilwra yn fwy yn gallu bodloni anghenion dysgwyr amrywiol yn well. Adroddodd mwyafrif helaeth yr arweinwyr a mwyafrif yr athrawon a holwyd bod arferion addysgu yn defnyddio egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu.

1.23. Adroddodd ymarferwyr a dysgwyr a gyfrannodd at waith ymchwil ansoddol bod dysgwyr yn ymwneud ag asesu yn gynyddol trwy gyflwyno neu roi pwyslais o'r newydd ar asesu gan gymheiriaid a hunanasesu. Adroddont bod asesu gan gymheiriaid a hunanasesu yn helpu i feithrin mwy o berchnogaeth ymhlith dysgwyr a mwy o ddealltwriaeth o'u cynnydd.

1.24. Clywodd y gwerthusiad safbwyntiau cymysg gan ddysgwyr am y cymorth sydd ar gael er mwyn eu helpu i ddeall eu cynnydd. Yn gyffredinol, adroddodd dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn wybodus am eu cynnydd, ac roedd dysgwyr cynradd yn fwy tebygol na dysgwyr uwchradd o ymateb mewn ffordd gadarnhaol i gwestiynau yn yr arolwg ynghylch deall cynnydd yn eu dysgu. Roedd rhai dysgwyr yr ymgysylltwyd â nhw yn y gwaith ymchwil ansoddol yn teimlo nad yw'r adborth a roddir am dasgau ac asesiadau wastad yn adeiladol, a'i fod weithiau yn aneglur.

1.25. Roedd rhai ysgolion wedi parhau i ddefnyddio dulliau asesu – megis defnyddio disgrifyddion lefel generig – y barnwyd eu bod yn gweithio, ond nad oeddent yn cyd-fynd yn dda â dyheadau Cwricwlwm i Gymru. Cyfeiriodd rhai arweinwyr uwch ac athrawon at aneglurder canfyddedig y canllawiau ynghylch asesu a chynnydd.

### Galluogwyr a chyfyngiadau

1.26. Mae'r dystiolaeth werthuso hyd yn hyn yn cynnig dirnadaeth o'r amodau sy'n addas ar gyfer neu sy'n cynorthwyo gweithrediad llwyddiannus Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adroddiad synthesis yn dod i'r casgliad bod newid cwricwlwm a gweithredu'r cwricwlwm wedi cael ei alluogi neu ei gyfyngu gan y ffactorau canlynol:

- **Arweinyddiaeth**: barnwyd bod arweinyddiaeth bwrpasol, sy'n canolbwyntio ar amgylchedd cynhwysol a chefnogol, gweledigaeth a rennir, galluogedd ymarferwyr a dulliau sy'n seiliedig ar ymholi o ran arfer y cwricwlwm, yn alluogydd cadarn. I'r gwrthwyneb, adroddwyd bod llwyddiant dulliau'r cwricwlwm newydd yn ddibynnol ar allu arweinyddiaeth unigol, sy'n golygu bod amrywioldeb ar draws y system yn codi pan welir diffyg o ran y gallu hwn, gan gyfyngu ar wireddu cwricwlwm cyson ac o ansawdd uchel o ganlyniad.
- **Dysgu proffesiynol**: barnwyd bod dysgu proffesiynol yn alluogydd allweddol arferion cynllunio, addysgeg ac asesu, o ystyried cymhlethdod y cwricwlwm a graddau'r newidiadau i arfer sy'n ofynnol dan Gwricwlwm i Gymru; fodd bynnag, mae adnoddau ariannol ac amser cyfyngedig, ynghyd â phwysau a achosir gan lwyth gwaith, yn parhau i gyfyngu ar fynediad ac ymgysylltu, gan adael nifer o arweinwyr uwch ac athrawon heb gymorth digonol er mwyn bodloni eu hanghenion dysgu proffesiynol.
- **Cydweithio**: barnwyd bod cydweithio – ffurfiol ac anffurfiol – yn bwysig ar gyfer datblygiad y cwricwlwm, gan helpu ymarferwyr i rannu arbenigedd, meithrin hyder, ac arloesi gyda'i gilydd. Canfu gwaith ymchwil ansoddol bod cydweithio (cydweithio mewn ysgol a gweithio ysgol-i-ysgol) yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddulliau gweithredu ysgolion wrth wireddu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau i addysgeg.
- **Ymholi proffesiynol**: pan oedd ymholi proffesiynol yn digwydd, barnwyd ei fod yn ffordd werthfawr o feithrin diwylliant myfyriol o fewn ysgolion a chynorthwyo arferion arloesol. Adroddodd rhai ysgolion am ymwreiddio ymholi trwy gyfrwng gwaith ymchwil ar y cyd, cynorthwyo ystyriaethau am addysgegau ac arferion asesu newydd. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cyfyngu gan y pwyslais ar ymholi proffesiynol, a bod yn well ganddynt ganllawiau sylfaenol yn hytrach na modelau rhy gymhleth sy'n seiliedig ar ymchwil. Nid oedd mabwysiadu ymholi proffesiynol yn rhywbeth a welwyd yn eang, ac roedd data o'r arolwg yn dynodi llai o ymgysylltu ymhlith athrawon nag ymhlith arweinwyr uwch.

- **Gallu wrth gynllunio cwricwlwm**: er y disgwylir i arweinwyr uwch ac athrawon gyd-greu cwricwla sy’n canolbwyntio ar y dysgwr, nid oedd gan nifer o ymarferwyr arbenigedd mewn cynllunio cwricwlwm, a oedd yn arwain at ddulliau anghyson ar draws lleoliadau. Mae tystiolaeth yn dynodi bod gallu o ran y cwricwlwm yn cael ei gryfhau lle y mae arweinwyr yn sefydlu rolau penodol; fodd bynnag, nid oedd hyder cyffredinol ynghylch cynllunio cwricwlwm yn rhywbeth a welwyd yn eang, yn enwedig ymhlith athrawon, ac roedd canlyniadau’r arolwg yn dangos mai ychydig dros hanner yr athrawon a fynegodd hyder yn eu harbenigedd nhw ynghylch cynllunio cwricwlwm.
- **Canllawiau ac enghreifftio**: Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi ysgogi newid arwyddocaol trwy gynnig y strwythur statudol ar gyfer gweithgarwch cynllunio cwricwlwm lleol a chynorthwyo addysgu sy’n canolbwyntio yn fwy ar y dysgwr. Fodd bynnag, roedd nifer o ymarferwyr yn teimlo bod elfennau o ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi bod yn aneglur, yn anghyson ac yn annigonol er mwyn bodloni eu hanghenion.
- **Amser a chapasiti**: adroddwyd bod y diffyg amser ac adnoddau ariannol digonol er mwyn cynorthwyo meysydd megis cynllunio cwricwlwm, dysgu proffesiynol a chydweithio wedi bod yn gyfyngiad sylweddol.
- **Galluogedd athrawon**: croesawyd y rhyddid a’r hyblygrwydd a gynigir gan y Fframwaith yn eang gan ymarferwyr. Fodd bynnag, roedd y galluogedd hwn wedi’i chyfyngu gan ddiffyg dulliau safonol o weithredu ar draws y system, a arweiniodd at bryder ac ofn ymhlith rhai ymarferwyr y gallai eu cwricwlwm neu arferion asesu a ddatblygwyd yn lleol gael eu hystyried maes o law yn anaddas neu'n anghywir a'u gorfodi i newid.

**Deilliannau cynnar**

<u>Deilliannau cynnar i ddysgwyr</u>

1.27. Adroddodd rhan fwyaf y dysgwyr a fu’n ymwneud â’r ymchwil ynghylch teithiau cwricwlwm am brofiadau cadarnhaol trwy gyfrwng Cwricwlwm i Gymru. Roedd nifer o ddysgwyr wedi mynegi bodlonrwydd gyda’u dysgu, gan nodi bod eu hysgol yn darparu cymorth priodol. Adroddodd nifer o ddysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth er mwyn sicrhau cynnydd ac adroddodd rhai hefyd eu bod yn teimlo fel pe baent yn cael eu grymuso o ganlyniad i’r ffaith bod ganddynt fwy o berchnogaeth o’u dysgu. Roedd canlyniadau’r arolwg yn dangos bod mwyafrif y dysgwyr yn

mwynhau'r ysgol, yn mwynhau'r hyn y maent yn ei ddysgu ac yn teimlo bod eu hathrawon yn eu helpu i ddeall ar adegau pan fyddent yn dysgu yn well. Roedd tua hanner y dysgwyr yn teimlo y gallent fod pwy ydynt yn yr ysgol (holwyd dysgwyr Blynyddoedd 3-9 yn unig), eu bod yn cael yr holl help y mae ei angen arnynt, a bod yr ysgol yn deg i bawb.

1.28. Roedd mwyafrif y dysgwyr a holwyd yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i sicrhau cynnydd tuag at ran fwyaf yr agweddau ar y pedwar diben, ac roeddent wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol mewn perthynas â'u lles hefyd.

1.29. Roedd data o'r arolwg wedi datgelu safbwyntiau cymysg ymhlith dysgwyr am y cyfleoedd a roddir iddynt i ddylanwadu ar gwricwlwm eu hysgol, gyda chanran uwch o ddysgwyr cynradd yn nodi yr ymgynghorir â nhw am gynllunio'r cwricwlwm. Roedd dysgwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn grwpiau trafod yn anghytuno gyda neu'n ansicr ar y cyfan ynghylch a ydynt yn cael y cyfle i fynegi eu barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol.

1.30. Roedd arweinwyr uwch ac athrawon yn barnu bod dysgwyr yn ymgysylltu yn fwy â'u taith addysgol ar ôl cyflwyno'r diwygiadau i'r cwricwlwm. Roedd ymarferwyr yn teimlo bod hyn oherwydd bod y diwygiadau wedi bod yn gatalydd ar gyfer trawsnewid dulliau addysgegol tuag at ymholi, dysgu drwy brofiad a dysgu dilys, a oedd yn helpu i wella ymgysylltu.

1.31. Roedd amrywiadau, fodd bynnag, rhwng gwahanol fathau o ddysgwyr: yn gyffredinol, roedd dysgwyr cynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr uwchradd, ac roedd dysgwyr anabl hefyd wedi adrodd am brofiadau llai cadarnhaol na dysgwyr nad ydynt yn anabl. Roedd tystiolaeth y gwerthusiad ffurfiannol yn cyfeirio'n gyson at amrywioldeb sylweddol rhwng profiadau ar draws y system, gan godi pryderon ymhlith rhai ymarferwyr am degwch o ran y profiadau i ddysgwyr.

<u>Deilliannau cynnar i rieni a gofalwyr</u>

1.32. Adroddodd rhan fwyaf yr ysgolion eu bod yn ymgysylltu gyda rhieni fel rhan o'u gweithgarwch cynllunio cwricwlwm, trwy gyfrwng arolygon a dulliau cyfathrebu eraill, er bod y profiadau yn amrywio: roedd rhai rhieni yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn cael eu cymell i gynorthwyo dysgu eu plentyn, roedd eraill yn credu nad yw ysgolion yn ceisio eu hadborth mewn ffordd weithredol, nac yn ymateb iddo.

1.33. Roedd canfyddiadau'r arolwg yn dynodi'r ffaith bod perthynas rhwng galluogedd rhieni (bod rhywun yn gwrando arnynt, bod ganddynt hyder yn ac yn cael eu cymell i

gynorthwyo addysg eu plentyn) a'u hymgysylltiad ystyrlon â gweithgarwch cynllunio cwricwlwm.

1.34. Roedd hyder rhieni yn y cwricwlwm yn ysgol eu plentyn, a'u bodlonrwydd ag ef, yn gymysg, gan gynnwys ei allu i fodloni anghenion dysgwyr unigol a'r graddau yr oedd y cwricwlwm, addysgu a dysgu yn helpu eu plentyn i sicrhau cynnydd ac yn eu paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg, eu gwaith ac yn eu bywyd yn fwy cyffredinol. Adroddodd rhieni dysgwyr anabl am lai o hyder yn ansawdd yr addysg ac yng ngallu eu hysgol i ddiwallu anghenion eu plentyn, o'u cymharu â rhieni dysgwyr nad ydynt yn anabl. Mynegodd rhai rhieni bryderon am ffocws annigonol ar ddatblygu sgiliau ac ynghylch eglurder yr asesu, gan amlygu'r angen am gyfathrebu a chymorth mwy cyson rhwng yr ysgol a rhieni.

<u>Deilliannau cynnar i ymarferwyr</u>

1.35. Mae'r gwerthusiad wedi canfod ymrwymiad clir i'r Cwricwlwm i Gymru ymhlith arweinwyr uwch ac athrawon, wrth i nifer goleddu egwyddorion y Fframwaith a'r hyblygrwydd y mae'n ei gynnig er mwyn teilwra'r dysgu i anghenion lleol, gan alluogi ysgolion i wireddu cwricwlwm mwy cynhwysol i bob dysgwr. Mae tystiolaeth yn dynodi bod y diwygiadau wedi cyfrannu at ymdeimlad o bwrpas arweinwyr uwch ac athrawon, gan annog creadigrwydd, a chan arwain rhai ysgolion i ail-werthuso eu hethos a'u dulliau gweithredu.

1.36. Mynegwyd hyder gan fwyafrif yr arweinwyr uwch a'r athrawon am y ffaith y byddai cwricwlwm yr ysgol yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben, gan gynorthwyo dysgwyr mewn ffordd yr un mor dda i sicrhau cynnydd, beth bynnag fo eu hamgylchiadau unigol neu eu man cychwyn. Roedd mwyafrif yr arweinwyr uwch a thua hanner yr athrawon yn hyderus y byddai eu cwricwlwm newydd (o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol) yn diwallu anghenion pob dysgwr yn well, gan helpu dysgwyr i wireddu eu potensial llawn, arwain at gynnydd gwell ymhlith dysgwyr a gwella lefelau cyffredinol cyflawniad dysgwyr.

1.37. Fodd bynnag, roedd gair o rybudd yn cyd-fynd â'r ymagwedd gadarnhaol hon, yn yr arolwg a'r gwaith ymchwil ansoddol, wrth i arweinwyr uwch ac athrawon fynegi'r angen am fwy o gymorth ac adnoddau. Roedd rhai ymarferwyr hefyd wedi mynegi'r farn bod y Fframwaith yn rhy agored i gael ei ddehongli, a'i fod wedi arwain at fwy o lwyth gwaith.

1.38. Yn gyffredinol, ceir hyder am y ffaith bod y cwricwlwm yn cynorthwyo datblygiad a chynnydd dysgwyr, fodd bynnag, mae'r canfyddiadau yn awgrymu y bydd cynnal

cynnydd a sicrhau canlyniadau dros y tymor hwy i ddysgwyr a'r system ehangach yn gofyn am gymorth a buddsoddiad parhaus.

## Materion i'w hystyried

1.39. Mae'r ddirnadaeth o'r gwerthusiad hwn yn codi tri mater pwysig i'w blaenoriaethu fel rhan o gam nesaf y daith o gyflawni'r cwricwlwm ar draws Cymru. Y blaenoriaethau hyn yw:

i. **Mynd i'r afael ag amrywioldeb wrth wireddu'r cwricwlwm ar draws y system:** mae hyn yn cynnwys amrywioldeb o ran y ffordd y deallwyd ac y dehonglwyd y Fframwaith, graddau ac ansawdd ei weithrediad, a'r ffordd y mae wedi cael ei brofi gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr.

ii. **Ymestyn a dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru,** gan annog mwy o uchelgais ymhlith ysgolion, lleoliadau a holl bartneriaid y system wrth ddefnyddio'r hyblygrwydd a gynigir gan y Fframwaith.

iii. **Cryfhau a gwella ansawdd gweithgarwch cynllunio cwricwlwm, addysgeg ac arferion asesu ymhellach** er mwyn cynyddu trylwyredd, meithrin gallu, a gwella arfer mewn ffyrdd sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a deilliannau i bob dysgwr.

1.40. Mae'r galluogwyr a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn cynnig ffocws ar gyfer ymdrechion i wireddu'r cwricwlwm – arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, cydweithio, gallu wrth gynllunio cwricwlwm, canllawiau, amser a chapasiti. Mae ystyried y galluogwyr hynny yng ngoleuni'r blaenoriaethau penodol a amlinellwyd ynghylch mynd i'r afael ag amrywioldeb, dyfnhau dealltwriaeth, a gwella ansawdd arfer yn peri i ni gynnig tri philer a ddylai gynnig sylfaen ar gyfer y dull gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Rydym hefyd yn nodi pam bod pob piler yn bwysig ar gyfer y tri mater y rhoddir blaenoriaeth iddynt, a amlinellwyd uchod. Y pileri yw:

a. **Persbectif system** sy'n cydnabod cydgysylltiad a rhyngweithiadau rhwng rhannau o'r system (y sefydliadau, asiantaethau, mentrau, polisïau, rhaglenni, offerynnau ac adnoddau ac ati) sy'n cynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm.
Mae persbectif system yn bwysig ar gyfer:

- **mynd i'r afael ag amrywioldeb** gan ei fod yn pennu fod y system gyfan yn gyfrifol am amrywioldeb – mae gan bob chwaraewr rôl i'w chyflawni, a rôl wrth gynorthwyo eraill.

- **dyfnhau dealltwriaeth** oherwydd gall y rhai mewn gwahanol rannau o'r system ddwyn gwahanol bersbectifau i'r hyn y mae agweddau ar y cwricwlwm yn ei olygu, a gall persbectifau partneriaid ar draws y system helpu i wella a dyfnhau dealltwriaeth.
- **gwella ansawdd arfer proffesiynol** oherwydd bod gwaith y rhai ar draws y system yn pennu pa mor addas yw'r amodau er mwyn i athrawon a dysgwyr archwilio arferion newydd

b. **Seilwaith ar ffurf rhwydweithiau ar gyfer arweinyddiaeth y cwricwlwm** sy'n a) cydnabod bod llwyddiant parhaus yn ddibynnol ar y perthnasoedd rhwng y rhai sy'n cynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm a b) sy'n canolbwyntio ar ac sy'n addas ar gyfer datblygu effeithlonrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm, datrys problemau a chynorthwyo gwelliant o ran y cwricwlwm, addysgu a dysgu. Mae'n bwysig tanlinellu y gall arweinwyr cwricwlwm fod yn arweinwyr uwch ac yn athrawon mewn ystod eang o swyddi, h.y. y rhai sy'n arwain a/neu sy'n cymryd rhan mewn rhwydweithiau gyda'r nod o arwain ar agweddau o wireddu'r cwricwlwm yn eu hysgolion neu eu lleoliadau.
Mae seilwaith ar ffurf rhwydweithiau ar gyfer arweinyddiaeth y cwricwlwm yn bwysig ar gyfer:
   - **mynd i'r afael ag amrywioldeb** gan ei fod yn creu rhwydweithiau o berthnasoedd a fydd yn caniatáu i wybodaeth, adnoddau, syniadau, arbenigedd ac ati, lifo ar draws y system
   - **dyfnhau dealltwriaeth** oherwydd ei fod yn meithrin perthnasoedd sy'n cysylltu pobl gyda gwahanol ddealltwriaeth a chryfderau mewn ffyrdd lle y byddant yn dod yn adnoddau i'w gilydd.
   - **gwella ansawdd arfer proffesiynol** oherwydd ei fod yn cynorthwyo mwy o ymddiriedaeth sy'n hanfodol ar gyfer cymryd risgiau a ystyriwyd yn dda, rhoi cynnig ar bethau newydd, rhannu heriau a chynorthwyo dysgu cydweithwyr.

c. **Dull gweithredu systematig a chadarn ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n cael ei ymwreiddio fel rhan o weithgarwch cynllunio cwricwlwm ysgolion.** Dylai hyn ganiatáu ymholi proffesiynol parhaus a thrylwyr, integreiddio dirnadaeth ac arbenigedd o waith ymchwil ac arfer, rhannu arbenigedd ar draws y system a chydweithio sy'n sicrhau newid ac sy'n

cryfhau gallu pawb dan sylw a chapasiti y system. Yn ymarferol, gallai hyn gynnwys defnyddio dulliau cyfranogol sy’n seiliedig ar ymholi tuag at ddysgu proffesiynol, sy’n cynorthwyo datblygiad proffesiynol ac sy’n cyfrannu at ddatblygu/gwireddu’r cwricwlwm ar yr un pryd.

Mae dull gweithredu systematig ac wedi’i ymwreiddio ar gyfer dysgu proffesiynol yn bwysig ar gyfer:

- **mynd i’r afael ag amrywioldeb** oherwydd ei fod yn gallu canolbwyntio ar rannau o’r system, ac agweddau ar y cwricwlwm lle y gwelir yr angen mwyaf, mewn ffordd systematig
- **dyfnhau dealltwriaeth** oherwydd bod ei gadernid yn caniatáu i sylw gael ei roi i fannau gwan, ynghyd â bylchau rhwng yr hyn sy’n digwydd mewn gwirionedd a’r hyn a fwriadwyd. Mae dulliau cadarn yn cynorthwyo athrawon i symud o ddealltwriaeth arwynebol i ddealltwriaeth ddofn o’r cwricwlwm y maent yn gweithio gydag ef, a sut y gall eu harfer wella er mwyn cynorthwyo hynny.
- **gwella ansawdd arfer proffesiynol** oherwydd ei fod yn cydnabod annigonolrwydd datrysiadau cyflym, cyngor a thriciau, a’r angen am ddulliau mwy parhaus sy’n cael eu cysylltu’n agos â gwaith a chyd-destunau athrawon.

# 2. Cyflwyniad

2.1. Yn 2024 comisiynodd Llywodraeth Cymru Arad i arwain gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae Arad yn gweithio ochr yn ochr â nifer o sefydliadau fel rhan o raglen eang o ymchwil, gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy.

2.2. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno synthesis o dystiolaeth a gasglwyd rhwng Mai 2024 a Medi 2025 fel rhan o gam cyntaf y gwerthusiad ffurfiannol. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau ymchwil a'r ffynonellau tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad hwn yn adran 2 isod.

## Cefndir i ddiwygiadau Cwricwlwm i Gymru

2.3. Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Mae gan Gwricwlwm i Gymru bedwar diben sy'n fan cychwyn ac yn ddyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Amlinellwyd y rhesymau am y diwygiadau yn adroddiadau y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), 'Gwella Ysgolion yng Nghymru' (OECD, 2014) a Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad annibynnol Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Cyflwynodd Dyfodol Llwyddiannus argymhellion ynghylch sut i gynllunio cwricwlwm newydd a fyddai'n addas i'r Gymru gyfoes. Fel rhan o'r diwygiadau, mae'n ofynnol i bob ysgol a lleoliad ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a ddiffiniwyd yn genedlaethol, gan alluogi dysgwyr i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm trwy ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

2.4. O dan Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae sgiliau cyfannol i'w datblygu ar draws ystod eang o ddysgu ac addysgu yn sail i'r pedwar diben. Y sgiliau cyfannol hyn yw: creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu. Trefnir pynciau o gwmpas chwe Maes: y Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Ar draws y chwe Maes yma, o fewn canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru, ceir 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig y mae'n rhaid i ysgolion seilio eu cwricwlwm arnynt (Llywodraeth Cymru, 2024a).

2.5. Fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cynnydd yn y sgiliau hyn ar draws pob maes cwricwlwm. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, mae'n ofynnol i ysgolion hefyd ymgorffori themâu trawsbynciol mewn dysgu ar draws y cwricwlwm. Y themâu trawsbynciol yw: addysg cydberthnas a rhywioldeb; hawliau dynol; amrywiaeth; profiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a byd gwaith; a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

2.6. Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn pennu'r egwyddorion a'r gofynion gorfodol (Llywodraeth Cymru, 2022a) a ddylai lywio paratoi a chynllunio cwricwlwm ysgolion a lleoliadau. Mae'r Fframwaith yn cyfeirio at gyd-ddatblygu'r cwricwlwm, gan annog dysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach i gyfrannu at ei ddatblygiad; sicrhau bod addysgeg yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r pedwar diben; ymgysylltu â rhwydweithiau proffesiynol; ac adlewyrchu cyd-destun yr ysgol leol wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Cyhoeddwyd canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru yn 2020, gan gyhoeddi diweddariadau blynyddol ar ôl hynny. Roedd y diweddariadau hyn yn cynnwys Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024) (Llywodraeth Cymru, 2024) a oedd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu cwricwlwm a dysgu, gan bwysleisio natur gylchol cynllunio cwricwlwm a'r camau y dylai ysgolion eu cymryd i gynllunio, gwerthuso a mireinio eu cwricwlwm. Roedd Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn adlewyrchu gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru fel cwricwlwm sy'n seiliedig ar ddibenion, gan amlinellu gweledigaeth ar gyfer addysg a diben addysg ledled Cymru. Canfu Cam 1 prosiect Camau i'r Dyfodol bod Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd fwyaf â chwricwlwm model proses sy'n canolbwyntio ar brosesau sy'n cefnogi datblygiad dysgwyr. Mae adroddiad Camau i'r Dyfodol yn nodi bod y model proses 'yn gweld dogfennau'r cwricwlwm nid fel setiau o ddeilliannau ond fel datganiadau o'r egwyddorion a'r

prosesau y mae addysg yn ceisio eu datblygu' (Llywodraeth Cymru, 2025a). Yn achos Cwricwlwm i Gymru, mae'r egwyddorion canolog yn cael eu mynegi drwy'r pedwar diben, y bwriedir iddynt ‘helpu athrawon i weld ym mha ffyrdd penodol y dylent gyfannu i’r dysgu gan y plenty neu’r person ifanc beth ddylai fod eu cyfraniadau penodol nhw i ddysgu plentyn neu berson ifanc,... helpu plant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr, i weld pwrpas yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut mae'r agweddau ar ddysgu’n ffitio i’w gilydd... [a chyfrannu] at lunio disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer y cwricwlwm a gellir eu ddefnyddio i bennu a chynllunio’r cynnwys a’r deilliannau arfaethedig” (Donaldson, 2015). Mae dulliau addysgu yn pwysleisio rôl ymarferwyr wrth gefnogi cynnydd dysgwyr, gan ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau dysgwyr tuag at y nodweddion a'r ymagweddau a amlinellir yn y pedwar diben.

2.7. Mae adran Galluogi Dysgu canllawiau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023a), sydd yn rhan o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio cwricwla sy’n briodol ar gyfer datblygiad pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy’n symud tuag at Gam Cynnydd 1. Mae’n amlygu tair ‘elfen galluogi’ rhyng-gysylltiedig — oedolion sy’n galluogi dysgu, profiadau sy’n ennyn diddordeb, ac amgylcheddau effeithiol – sydd, ar y cyd, yn meithrin datblygiad holistaidd trwy gyfrwng dysgu sy’n seiliedig ar chwarae, dysgu yn yr awyr agored, arsylwi, a phrofiadau dilys. Mae’r canllaw yn tanlinellu pum llwybr datblygiadol hefyd – perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol, a lles – wedi’u sefydlu mewn meysydd traddodiadol datblygiad plant fel rhai hanfodol ar gyfer cynorthwyo twf a chynnydd dysgwyr tuag at bedwar diben y cwricwlwm.

2.8. Mae canllawiau a chynlluniau strategol eraill Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023b) yn pwysleisio'r angen i ysgolion ystyried sut y gall y broses o wireddu Cwricwlwm i Gymru gefnogi diwygiadau a blaenoriaethau ehangach, gan gynnwys Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Llywodraeth Cymru, 2021a), Cymraeg 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017), mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2021b).

2.9. Yn ystod yr ymchwil hon, cyn cyflwyno Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr hŷn a chyflwyno cymwysterau newydd, cyhoeddwyd canllawiau pellach ar ddysgu 14 i 16 (Llywodraeth Cymru, 2024c) i gefnogi ymarferwyr i gynllunio, gwireddu ac adolygu cwricwlwm cynhwysol i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae’r canllawiau hyn yn nodi y dylai’r holl ddysgu ac addysgu a gyflawnir ym Mlynyddoedd 10 ac 11 gael ei gynllunio, ei adolygu a’i fireinio yn unol â chanllawiau Cwricwlwm i Gymru. Dylai

ysgolion weithredu egwyddorion cynllunio cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2022a) ar gyfer unrhyw brofiadau dysgu, gan gynnwys unrhyw ddysgu sy'n cyfrannu at sicrhau cymhwyster.

## Trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol

2.10. Roedd Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022b) yn nodi theori newid ar gyfer diwygiadau'r cwricwlwm ac yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad ffurfiannol fel un astudiaeth o fewn rhaglen ymchwil. Nod y gwerthusiad yw asesu i ba raddau y mae'r diwygiadau'n gweithio yn ôl y disgwyl fel y nodir yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (Y Fframwaith) (Llywodraeth Cymru, 2025a). Amcanion y gwerthusiad ffurfiannol yw:

- adolygu'r theori newid yn yr Astudiaeth Cwmpasu (Llywodraeth Cymru, 2022b), a gwneud diwygiadau lle bo angen, yn enwedig er mwyn ystyried tegwch yn llawnach o fewn y theori newid
- ystyried i ba raddau y mae'r mecanweithiau yn y theori newid, a'r gweithgareddau, allbynnau a deilliannau tymor byr/canolig a ragwelir yn cael eu gwireddu yn ôl y disgwyl
- archwilio graddau'r amrywiad rhwng dulliau ar draws ysgolion a darpariaeth arall a disgrifio pa ffactorau a/neu amodau sy'n cynorthwyo neu sy'n atal y diwygiadau rhag cael eu gwireddu mewn ffordd effeithiol a pha gymorth ychwanegol y mae ei angen
- archwilio safbwyntiau, arferion a phrofiadau ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaeth arall mewn perthynas â Chwricwlwm Cymru, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae safbwyntiau, profiadau ac arferion yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ymarferwyr a lleoliadau, a pham
- archwilio barn a phrofiadau dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaeth arall mewn perthynas â Chwricwlwm Cymru, yn ogystal â'u rhieni/gofalwyr, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae safbwyntiau a phrofiadau yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr, a pham
- ffurfio casgliadau ac amlygu meysydd i'w hystyried ar gyfer polisi ac arfer ar draws y system gyfan er mwyn cynorthwyo gwireddu ac effeithiolrwydd y diwygiadau cwricwlwm ac asesu yn y dyfodol, gan sicrhau bod y rhain yn

ystyried ehangder y diwygiadau ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, cyd-destunau a lleoliadau yn llawn

2.11. Mae'r camau a'r ffynonellau sy'n sail i'r adroddiad synthesis hwn yn cael eu hegluro yn yr adran fethodoleg isod.

**Nodyn ar derminoleg yn yr adroddiad hwn**

2.12. Mae cyfeiriadau at 'dystiolaeth' yn dynodi tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru yn hytrach na thystiolaeth ehangach, er enghraifft gwaith ymchwil academaidd neu gyhoeddiadau gan sefydliadau eraill yn y sector addysg yng Nghymru.

# 3. Methodoleg y synthesis


### Amcan a chwestiynau allweddol y synthesis

3.1. Amcan y synthesis yw integreiddio dealltwriaeth o ganfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru, a gwblhawyd rhwng Mai 2024 a Medi 2025, wrth i ymarferwyr wireddu Cwricwlwm i Gymru. Datblygwyd yr amcan hwn gan gyfeirio at theori newid ar gyfer diwygiadau'r cwricwlwm a gynhyrchwyd i lywio gwerthusiad y Cwricwlwm i Gymru. Yn benodol, mae'r synthesis wedi'i strwythuro o amgylch adrannau o'r theori newid, sef:

- Arferion cynllunio cwricwlwm (Pennod 4), addysgeg (Pennod 5) ac asesu (Pennod 6): mae'r rhain i gyd yn cyfateb i weithgareddau ymarferwyr yn y theori newid. Y rhesymeg dros ddewis y gweithgareddau hyn oedd bod mwyafrif y dystiolaeth a gasglwyd yn y gwerthusiad yn ymwneud â'r elfennau yma. Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau eraill ymarferwyr yn y theori newid – ymholiad proffesiynol, hunanwerthuso, ymgysylltu cynhwysol – wedi'i hintegreiddio o fewn y penodau hyn.
- Galluogwyr a chyfyngiadau (Pennod 7): mae'r bennod hon yn adlewyrchu gweithgareddau i ymarferwyr a deilliannau tymor byr yn y theori newid.
- Deilliannau sy'n dod i'r amlwg (Pennod 8): gan adlewyrchu rhai o'r deilliannau tymor canolig yn y theori newid).

3.2. Dangosir hyn yn Ffigur 1 isod.

**Ffigur 1. Strwythur synthesis Cam 1 y gwerthusiad a'r berthynas â'r theori newid**



3.3. Mae'r  cwestiynau sy'n llywio'r synthesis fel a ganlyn:

1. Beth sy'n digwydd o ran arferion proffesiynol (cynllunio'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu) wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei weithredu mewn ysgolion a lleoliadau?
2. Beth sy'n galluogi a/neu gyfyngu arferion cynllunio cwricwlwm, addysgeg ac asesu wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei weithredu mewn ysgolion a lleoliadau?
3. Pa ddeilliannau cychwynnol sy'n cael eu harsylwi mewn perthynas â dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr o ganlyniad i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru hyd yma?

**Ffynonellau a pharatoi data**

3.4. Mae'r synthesis hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau o'r gweithgarwch ymchwil canlynol ac, lle bo hynny'n berthnasol, ar gyhoeddiadau.

- **Pedair astudiaeth ansoddol gydag ysgolion a lleoliadau yn canolbwyntio ar:**
    - Tegwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2025c)
    - Cynllunio cwricwlwm ac asesu ac addysgeg yn y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2025d)
    - Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2025e)
    - Maes dysgu a phrofiad iechyd a lles yn y Cwricwlwm i Gymr (Llywodraeth Cymru, 2025f)

  Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr astudiaethau ansoddol hyn yn haf ac hydref 2024, gydag adroddiadau wedi'u cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025. Roedd yr astudiaethau yn seiliedig ar waith maes gydag ymarferwyr mewn ystod o ysgolion a lleoliadau. Cyfrannodd cyfanswm o 53 o ysgolion a lleoliadau at yr astudiaethau hyn. Roedd yr astudiaeth ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol hefyd yn cynnwys gwaith maes gyda naw cynrychiolydd awdurdod lleol.

- **Arolwg o uwch arweinwyr ac athrawon:** cynhaliwyd yr arolwg rhwng Medi a Rhagfyr 2024. Cwblhaodd cyfanswm o 925 o uwch arweinwyr ac athrawon yr arolwg. Cyhoeddwyd yr adroddiad (Llywodraeth Cymru, 2025g) ym mis Rhagfyr 2025.
- **Arolwg o rieni/gofalwyr a dysgwyr:** cynhaliwyd yr arolwg rhwng Medi a Rhagfyr 2024. Cwblhaodd cyfanswm o 1094 o rieni/gofalwyr a 757 o'u plant (oed dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9) yr arolwg.[Troednodyn 3] Cyhoeddwyd yr adroddiad (Llywodraeth Cymru, 2025h) ym mis Rhagfyr 2025. Cynlluniwyd holiadur i'w gwblhau gan riant yng nghwmni eu plentyn. Roedd ffurf y cwestiynau (yn benodol y graddfeydd ymateb) a gyflwynwyd i ddysgwyr yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd i rieni; e.e. roedd emojis wedi'u cynnwys ochr yn ochr â'r geiriad yn yr opsiynau ymateb ar gyfer dysgwyr. Hefyd, cyflwynwyd gwahanol amrywiadau o gwestiynau i ddysgwyr mewn gwahanol grwpiau blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i gwestiynau oedd yn addas i’w hoedran.
- **Ymchwil ansoddol teithiau cwricwlwm**: mae'r cam hwn o'r ymchwil yn cynnwys ymchwil hydredol gyda sampl o 10 ysgol yn ystod tair ton o waith maes yn haf/hydref 2024 a 2025, gydag ymchwil bellach wedi'i chynllunio ar gyfer 2026.

### Rhagor o wybodaeth ar ymchwil teithiau cwricwlwm

3.5. Mae'r olaf o'r pedair ffynhonnell dystiolaeth a restrir uchod, ymchwil teithiau cwricwlwm, yn wahanol i'r tair arall gan nad oes adroddiad wedi'i gyhoeddi sy'n cyflwyno canfyddiadau o'r cam penodol hwn o'r gwerthusiad ar adeg ysgrifennu’r adroddiad synthesis. Mae'r elfen hon o'r gwerthusiad yn wahanol i gamau eraill gan ei fod yn cynnwys casglu data gyda grŵp o ysgolion bob blwyddyn yn ystod y gwerthusiad, gan gasglu gwybodaeth fanwl gan sampl o ddeg ysgol dros amser. Mae’r gwaith maes hyd yn hyn yn darparu darlun gwerthfawr o brofiadau yn yr ysgolion hyn ac mae rhai canfyddiadau o’r gwaith wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Bwriedir cyhoeddi adroddiad sy'n cwmpasu teithiau llawn yr ysgolion sy’n rhan o’r sampl gan adlewyrchu newidiadau dros y cyfnod 2024 i 2026 ar ddiwedd 2026.

3.6. Mae'r sampl yn cynnwys pum ysgol gynradd, pedair ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig. Hyd yn hyn, cynhaliwyd dwy rownd o ymweliadau ymchwil gydag ysgolion

[3] Dyluniwyd cwestiynau sy'n briodol i'w hoedran, gyda rhai amrywiadau lle dangoswyd cwestiynau, a chyflwynwyd geiriad y cwestiynau, i ddysgwyr o wahanol oedrannau

teithiau cwricwlwm, gan gynnwys trafodaethau lled-strwythuredig gydag uwch arweinwyr, ymarferwyr a dysgwyr. Cynhaliwyd cyfanswm o 18 o grwpiau trafod gyda dysgwyr ar draws y ddwy don o ymweliadau ymchwil. Roedd nifer y dysgwyr yn y grwpiau hyn yn amrywio o dri i 12.

3.7. Lle bo'n bosibl, mae ymchwilwyr yn trefnu trafodaethau gyda'r un ymarferwyr a dysgwyr yn ystod pob rownd o waith maes er mwyn deall a yw eu profiadau o'r trefniadau cwricwlwm newydd yn newid dros amser, ac os ydynt, i ba raddau. Yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad roedd dysgwyr ysgol gynradd ym Mlwyddyn 5 a dysgwyr uwchradd ym Mlwyddyn 8. Bydd dysgwyr ysgolion cynradd yn yr ysgol uwchradd erbyn y drydedd rownd o ymweliadau ymchwil, gan roi cyfle i gasglu gwybodaeth ar eu profiadau o drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd. Bydd dysgwyr ysgolion uwchradd ym Mlwyddyn 9 ar gyfer yr ail a Blwyddyn 10 ar gyfer y drydedd rownd o ymweliadau ymchwil. Darparwyd canllawiau i ysgolion ar ddull o ddewis sampl o ddysgwyr er mwyn sicrhau bod y grwpiau'n cynnwys trawstoriad o ddysgwyr oedd yn medru darparu golwg gyflawn o brofiadau o'r cwricwlwm yn y grŵp blwyddyn/ysgol berthnasol.

3.8. Rhoddwyd cyfle i bob un o'r deg ysgol hefyd enwebu ymarferydd o'u hysgol i weithio ochr yn ochr â'r tîm ymchwil i gwblhau tasg ymchwil, gan archwilio agwedd benodol ar weithredu'r cwricwlwm yn eu hysgol. Bwriad hyn oedd rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ymgysylltu â'r gwerthusiad yn fwy uniongyrchol ac i gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad. Yn dilyn y rownd gyntaf o waith maes, rhoddodd ysgolion gydag ymchwilydd ymarferydd fewnbwn pellach i bwnc penodol, yn seiliedig ar adolygiad o ddogfennau ysgol, adborth gan eu cydweithwyr a'u dysgwyr a chan gyflwyno eu profiadau/persbectif eu hunain.

3.9. Mae'r synthesis hwn wedi gwneud defnydd o nodiadau a gasglwyd gan y tîm gwerthuso yn dilyn pob rownd o waith maes yn y deg ysgol teithiau cwricwlwm, ynghyd â dogfennaeth ac adborth a gyflwynwyd gan chwe ymarferydd o'r ysgolion hyn yn dilyn eu gweithgarwch ymchwil.

### Paratoi'r set ddata ar gyfer y synthesis

3.10. Y deunydd ffynhonnell ar gyfer y synthesis oedd y chwe adroddiad gwerthuso a gyhoeddwyd yn 2025 ac y cyfeirir atynt yn adran 2.4 uchod yn ogystal â chanfyddiadau o'r ymchwil teithiau cwricwlwm a gwblhawyd gyda 10 ysgol yn ystod 2024 a 2025. Roedd paratoi'r set ddata ar gyfer y synthesis (y deunydd ymchwil a'r adroddiadau a nodir uchod) yn cynnwys y camau canlynol:

- Creu fersiynau wedi'u golygu o bob adroddiad a nodiadau (yn achos deunydd teithiau cwricwlwm), er mwyn sicrhau bod cwmpas dadansoddiadau testun yn rhwym i ddeunydd sy'n cyfeirio at ganfyddiadau yn unig. Roedd hyn yn cynnwys dileu adrannau ar ddulliau, adrannau cyd-destun a chyflwyniad, cyfeiriadau, offerynnau ymchwil/atodiadau, adrannau yn adroddiadau'r arolwg a oedd yn nodi beth ofynnwyd i ymatebwyr ac unrhyw nodiadau nad oeddent yn ymwneud â chanfyddiadau yn deillio o ddata gan gyfranogwyr.
- Rhannwyd adroddiadau'r arolwg yn ddeunydd sy'n ymwneud â phum math o ymatebwyr unigol – rhieni/gofalwyr, dysgwyr, athrawon, arweinwyr, a'r deunydd ar gysylltiadau rhwng newidynnau yn yr adrannau modelu hafaliadau strwythurol. Sicrhaodd hyn fod y dull dadansoddol a ddefnyddiwyd ar NVivo yn galluogi i'r ymchwilwyr ystyried data ar wahân gan wahanol fathau o ymatebwyr.

**Dadansoddi – chwiliadau a chynllun codio diddwythol**

3.11. Datblygwyd termau cychwynnol ar gyfer chwiliadau ar gyfer pob un o'r arferion (cynllunio cwricwlwm, addysgeg ac asesu), gan ddefnyddio opsiynau geiriau bonyn fel y nodir isod (gan * ar ddiwedd bonion perthnasol).[Troednodyn 4] Y rhain oedd:

- ar gyfer cynllunio cwricwlwm (cwricwlwm* neu gynlunio neu gynllun neu uned neu gyfres)
- ar gyfer addysgeg (addysg* neu addysgu* neu weithgaredd* neu ddull neu adnodd*)
- ar gyfer asesu (asesu* neu 'gamau cynnydd neu 'egwyddorion cynnydd neu 'egwyddorion cynnydd neu 'asesu ar gyfer dysgu')

3.12. Datblygwyd termau chwilio ar gyfer galluogwyr a chyfyngiadau posibl yn seiliedig ar eitemau (hynny yw, gweithgareddau, allbynnau a deilliannau unigol) a gynhwyswyd yn y theori newid, gan addasu iaith i adlewyrchu terminoleg a ddefnyddiwyd yn yr offerynnau ymchwil ac yn y data a gasglwyd. Y rhain oedd:

- ar gyfer cyfalaf dynol (termau sy'n ymwneud â lles neu fodlonrwydd neu ymrwymiad neu hyder neu allu neu ddatrys problemau neu effeithiolrwydd)
- ar gyfer cyfalaf cymdeithasol (termau sy'n ymwneud â pherthnasoedd, ymddiriedaeth, cydweithio, dealltwriaeth gyffredin a galluogedd)

---

[4] Mae codio diddwythol yn ddull lle mae codau wedi'u diffinio ymlaen llaw cyn dadansoddi, yn seiliedig ar theori neu fframwaith presennol. Mae codio anwythol, mewn cyferbyniad, yn cynnwys nodi a datblygu codau a themâu o'r data wrth iddynt ddod i'r amlwg yn ystod y broses o adolygu'r data.

- ar gyfer ysgolion fel sefydliadau dysgu (termau sy'n ymwneud â dysgu – gan gynnwys chwiliadau ar wahân am 'dysgu parhaus' a 'dysgu proffesiynol' - system, arweinyddiaeth, gweledigaeth, datblygiad proffesiynol, tîm, diwylliant, arloesi, archwilio, cyfnewid a thwf)

3.13. Roedd y termau chwilio cychwynnol ar gyfer arwyddion o gysylltiadau achosol (i ganolbwyntio dadansoddiad ar alluogwyr a chyfyngiadau) yn cynnwys y termau 'achosi', 'arwain at', 'yn golygu bod', 'o ganlyniad', 'oherwydd' neu 'yn sgil'. Sefydlwyd categorïau diddwythol a'u cymhwyso i ddadansoddi pob un o'r tri arfer (cynllunio cwricwlwm, addysgeg, asesu). Roedd y categorïau hynny yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Camau gweithredu - Beth sy'n digwydd?
- Galluogwyr - Beth sy'n cefnogi arferion/gweithredoedd?
- Cyfyngiadau – Beth sy'n cyfyngu neu'n rhwystro arferion/gweithredoedd?

3.14. Sefydlwyd prosiect NVivo gyda'r codau diddwythol uchod, a gyda'r deunydd ffynhonnell wedi'i baratoi wedi'i gofnodi fel ffeiliau ar gyfer codio.

**Dadansoddiad synthesis systematig a chodau/themâu anwythol**

3.15. Chwiliwyd pob ffynhonnell yn systematig gan ddefnyddio'r termau chwilio a nodir uchod, gan ddefnyddio'r dull canlynol: cynhaliwyd chwiliadau gan ddefnyddio geiriau allweddol (a bonion geiriau), arbedwyd canlyniadau, ac fel arfer defnyddiwyd rhaglen NVivo i wirio perthnasedd y deunydd a nodwyd i bob categori.

3.16. Yna dyrannwyd y testun a ddaeth i'r amlwg trwy'r dull hwnnw i godau/themâu anwythol a oedd yn adlewyrchu ystyr pob un. Er enghraifft, roedd y chwiliad gan ddefnyddio'r termau arferion addysgegol wedi adnabod darnau o destun ar ddulliau addysgegol oedd yn ymwneud ag arferion oedd:

- yn ymatebol
- yn gwahaniaethu
- yn defnyddio grwpio gallu cymysg
- yn canolbwyntio ar berthnasedd
- yn newidiol yn ôl cyd-destun
- mewn rhai achosion, yn cynnwys newid sylweddol i ddulliau blaenorol

3.17. Yn dilyn hyn, aethpwyd ati i adolygu a mireinio'r codau/themâu. Er enghraifft, trefnwyd y codio ar arferion addysgegol gan rannu'r data rhwng arsylwadau mwy cadarnhaol a negyddol, a gan grwpio codau tebyg neu gysylltiedig gyda'i gilydd.

### Codio diddwythol ail rownd

3.18. Er mwyn dal canfyddiadau cysylltiedig nad oeddent wedi dod i'r amlwg yn ystod y rowndiau cychwynnol o godio diddwythol ac anwythol, cynhaliwyd cam ychwanegol: lle roedd y broses o godio anwythol wedi adnabod themâu, yna nodwyd termau oedd yn gysylltiedig â'r un thema a'u defnyddio fel sail ar gyfer chwiliadau pellach gan ddefnyddio'r termau cysylltiedig hyn. Er enghraifft, daeth y gefnogaeth a'r arbenigedd a ddarparwyd gan arbenigwyr ac eraill i'r amlwg fel galluogydd arferion yn y rownd gyntaf o godio, a thrwy chwiliad dilynol am 'arbenigwr' ar draws pob ffynhonnell canfuwyd tystiolaeth ychwanegol bod arbenigedd (er enghraifft, arbenigedd allanol ac arbenigedd mewnol o fewn ysgolion) yn galluogi arferion, a diffyg arbenigedd, yn gyfyngiad.

3.19. Yn ogystal, cynhaliwyd codio diddwythol a oedd yn canolbwyntio ar elfennau allweddol o'r theori newid, gan chwilio am eiriau allweddol a chyfystyron oedd yn ymwneud ag agweddau ar y theori newid y tybir eu bod yn ymwneud â'r arferion proffesiynol.

3.20. Gan ddefnyddio'r dadansoddiadau a ddisgrifir uchod, datblygwyd set o ganfyddiadau synthesis allweddol ar gyfer pob arfer (cynllunio cwricwlwm, addysgeg ac asesu) ac ar gyfer canfyddiadau yn ymwneud â galluogwyr a chyfyngiadau.

### Adrodd

3.21. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir o dan bob pennod yn seiliedig ar y broses systematig a ddisgrifir uchod. Er mwyn sicrhau bod ehangder a chryfder y dystiolaeth o bob rhan o'r ffynonellau yn darparu darlun cywir o ganfyddiadau gwerthuso hyd yma, cymerwyd y camau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- nodi'r pwyntiau a godwyd amlaf i alluogi trefnu pwyntiau o fewn yr adroddiad yn ôl eu hamlygrwydd yn y data
- crynhoi a/neu syntheseiddio tystiolaeth o'r adroddiadau ffynhonnell mewn ffyrdd sy'n gyson â'r ffynhonnell wreiddiol, ac mewn rhai achosion cyfleu cryfder neu bwysigrwydd ychwanegol canfyddiad ar y sail ei fod wedi'i amlygu ar draws sawl ffynhonnell

- cyfeirio at gyfrannau (e.e. 'lleiafrif', 'mwyafrif', 'mwyafrif helaeth') gan ddefnyddio'r un fframwaith/trothwyon ag a ddefnyddiwyd yn yr adroddiadau arolwg gwreiddiol.[Troednodyn5]

3.22. Yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn, defnyddir yr ymadrodd 'astudiaethau ansoddol' wrth gyfeirio at y pedwar adroddiad ansoddol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 yn unig. Defnyddir 'ymchwil ansoddol' wrth gyfeirio at y pedair astudiaeth ansoddol a gyhoeddwyd a thystiolaeth o'r ymchwil teithiau cwricwlwm. Defnyddir y term 'ymarferwyr' wrth gyfeirio at uwch arweinwyr, athrawon a gweithwyr cymorth dysgu ar y cyd.

**Cyfyngiadau**

3.23. Mae'r astudiaethau a'r arolygon ansoddol yn darparu cipolwg ar arferion ar adeg pan oedd gwireddu Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion yn parhau i fod yn broses iteraidd ac esblygol, gyda rhai ysgolion yn pwysleisio eu bod yn dal i deimlo eu bod ar gam cynnar o wireddu'r diwygiadau. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r tîm ymchwil i archwilio cynnydd Cwricwlwm i Gymru ysgolion dros amser.

3.24. Er mwyn lleihau'r baich ar gyfranogwyr, roedd trafodaethau ansoddol gydag ymarferwyr fel arfer yn para rhwng 60 a 90 munud. Roedd cyfyngiadau ar yr amser oedd ar gael ar gyfer trafodaethau yn cyfyngu cyfleoedd i archwilio ymatebion cyfranogwyr ar bob pwnc yn llawn.

3.25. Roedd meintiau samplau yn yr astudiaethau ansoddol yn golygu nad oedd modd cyffredinoli canfyddiadau ansoddol i'r boblogaeth gyfan, er eu bod yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a manwl ar brofiadau a safbwyntiau cyfranogwyr, a'r cyd-destun sy'n sail i'r canfyddiadau hynny. Mae'r rhain wedi'u cyfuno gydag ymatebion i'r arolwg er mwyn cynnig ehangder a dyfnder o ran tystiolaeth.

3.26. Er bod ymchwil teithiau cwricwlwm yn cynnwys safbwyntiau dysgwyr, nid oedd astudiaethau ansoddol eraill yn cynnwys tystiolaeth gan ddysgwyr. Bydd barn dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn cael eu harchwilio ymhellach drwy ymchwil ansoddol wedi'i gynllunio fel rhan o'r gwerthusiad. Nid oedd yr arolwg o ddysgwyr yn cynnwys dysgwyr o dan yr oedran dosbarth derbyn (3-4 oed).

---

[5] Mewn adroddiadau arolwg ac yn yr adroddiad hwn, defnyddir y disgrifyddion canlynol i adrodd ar ganran yr ymatebwyr a roddodd ymatebion penodol i gwestiynau: 'mwyafrif helaeth' = 85% neu fwy; 'mwyafrif' = rhwng 59% ac 84%; 'tua hanner' = rhwng 42% a 58%; 'lleiafrifol' = rhwng 15% a 41%; 'lleiafrif bach = 15% neu lai. Dylid nodi nad yw'r disgrifyddion hyn yn cael eu cymhwyso i ganfyddiadau sy'n tynnu ar ffynonellau ansoddol o dystiolaeth, lle mae'r termau 'mwyaf', 'llawer' neu 'rhai' yn cael eu defnyddio i ddynodi cyffredinrwydd canfyddiadau neu bwysau tystiolaeth.

3.27. Ceir risg tuedd wrth ddethol ar draws y gwerthusiad; efallai mai ysgolion a rhieni/gofalwyr a ddewisodd gymryd rhan oedd y rhai a oedd wedi ymgysylltu yn fwy neu, yn hytrach, y rhai a oedd wedi cael eu cymell i amlygu pryderon. Mae'r arolygon yn ceisio lliniaru'r risgiau o duedd wrth ddethol trwy fabwysiadu dull cwota haenog a gan dargedu ysgolion a rhieni/gofalwyr â nodweddion penodol a oedd wedi'u tangynrychioli yn y sampl i gynyddu nifer yr ymatebion ymysg y grwpiau hyn.

# 4. Arferion cynllunio cwricwlwm

4.1. Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwerthusiad hyd yma sy'n ymwneud â chynllunio cwricwlwm. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar ddata o’r arolygon o ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr; ac o astudiaethau ansoddol ac ymchwil teithiau cwricwlwm.

**Newidiadau sylweddol i gynllunio cwricwlwm ysgolion ond amrywioldeb mewn canfyddiadau ymysg unigolion mewn gwahanol ysgolion a gwahanol rolau**

4.2. Mae newidiadau sylweddol wedi'u gwneud gan ysgolion i wahanol agweddau ar gynllunio cwricwlwm mewn ymateb i’r Cwricwlwm i Gymru, yn ôl mwyafrif yr uwch arweinwyr ac athrawon. Yn yr un modd, adroddwyd newid sylweddol i'r cynnwys a'r pynciau a addysgwyd gan y mwyafrif o'r holl uwch arweinwyr ac athrawon a gyfrannodd i’r arolwg.

4.3. Disgrifiodd pob ysgol a oedd yn rhan o'r ymchwil ansoddol brosesau cynllunio cwricwlwm systematig sydd wedi arwain at newidiadau sylweddol i'w cwricwlwm. Cyfeiriodd ysgolion yn aml at natur barhaus, iteraidd a dwys y daith cynllunio cwricwlwm. Nododd ysgolion hefyd fod eu cynllunio cwricwlwm wedi'i lywio gan Fframwaith Cwricwlwm i Gymru: adroddwyd bod cynllunio'r cwricwlwm wedi ymgorffori'r pedwar diben; trefnwyd y cwricwlwm mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ac mewn ymateb i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer bob Maes. Roedd llawer o arweinwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd i deilwra dysgu i anghenion dysgwyr, gan adlewyrchu canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru. Adroddodd ysgolion sy'n rhan o ymchwil teithiau cwricwlwm y bu cynnydd yn y gwaith o fapio'r cwricwlwm ar draws Meysydd; Nod y gweithgaredd hwn oedd cefnogi eglurder a chysondeb wrth gynllunio'r cwricwlwm. Canfu'r elfen hon o'r gwerthusiad hefyd fwy o bwyslais – yn enwedig mewn ysgolion cynradd – ar ymgorffori cyd-destunau bywyd go iawn ac ar ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy (gweithio mewn tîm, hunanwerthuso a datrys problemau) fel rhan o gynllunio'r cwricwlwm. Dywedodd llawer o ysgolion uwchradd eu bod wedi symud i ffwrdd o 'addysgu tuag at gymwysterau TGAU', tuag at ddatblygu dyfnder ac ehangder gwybodaeth, yn enwedig i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7-9, weithiau'n canolbwyntio ar ystod mwy cul o bynciau neu themâu mewn modd dyfnach nag o dan y cwricwlwm blaenorol.

4.4. Mae'n bwysig nodi fod ysgolion cynradd ac uwchradd, mewn rhai achosion, wedi adrodd eu bod wedi treialu dulliau newydd ond, yn dilyn hynny, eu bod wedi dychwelyd at neu ailgyflwyno dulliau o addysgu a dysgu a oedd ar waith cyn cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Canfu ymchwil ansoddol ar gynllunio cwricwlwm fod llawer o ysgolion uwchradd wedi dychwelyd i drefnu eu cwricwlwm ar sail pwnc ar ôl treialu dull mwy integredig yn seiliedig ar Feysydd. Roedd yr ysgolion uwchradd hyn yn teimlo bod arbenigedd pwnc yn cefnogi dysgu yn well ac yn fwy cydnaws â chymwysterau.

4.5. Dangosodd canfyddiadau o'r arolwg o uwch arweinwyr ac athrawon fod canfyddiadau o raddau y newid i'r cwricwlwm yn amrywio ar draws gwahanol rolau a mathau o ysgolion; er enghraifft, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag athrawon o gytuno bod newidiadau sylweddol wedi bod i'r cynnwys, y pynciau a'r themâu sy'n cael eu haddysgu. Yn ogystal, roedd llai o ymatebwyr o ysgolion uwchradd (o'i gymharu ag ysgolion cynradd, arbennig ac UCDau), ac o ysgolion cyfrwng Cymraeg (o'i gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg) yn cytuno bod newidiadau sylweddol wedi bod i'r cynnwys, y pynciau a'r themâu sy'n cael eu haddysgu. Yn yr un modd, adroddodd yr un grwpiau ymatebwyr (y rhai o ysgolion uwchradd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg) lai o newidiadau i ddulliau cynllunio cwricwlwm ac roeddent hefyd yn llai tebygol o gytuno bod trefniadau cynllunio cwricwlwm yn gadarn.

**Rhai agweddau o drefniadau cynllunio cwricwlwm wedi'u dylanwadu gan ddysgwyr, ond cyfyngiadau yn y dulliau o ymgysylltu â dysgwyr**

4.6. Er bod ysgolion yn adrodd eu bod yn cynnwys dysgwyr yn y broses o gynllunio cwricwlwm, roedd hyn yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig o ran cwmpas a natur yr ymgysylltiad hwn. Adroddodd ysgolion a lleoliadau ym mhob un o'r astudiaethau ansoddol ddulliau o ddefnyddio llais y dysgwr a dewisiadau dysgwyr i lywio cynllunio cwricwlwm. Disgrifiodd ymarferwyr fu'n rhan o'r astudiaeth ansoddol a oedd yn canolbwyntio ar gynllunio cwricwlwm ac asesu eu dulliau cynllunio fel dull wedi'i ddylanwadu gan ddysgwr neu wedi'i gyfryngu gan ymarferwyr, yn hytrach na dull a arweiniwyd gan ddysgwyr. Cyfeiriodd ymarferwyr a gyfrannodd at astudiaethau ansoddol ac ymchwil teithiau cwricwlwm at yr her a'r cymhlethdod o ymgorffori diddordebau amrywiol dysgwyr o fewn cynlluniau cwricwlwm, gan fynegi rhai pryderon ynghylch blaenoriaethu themâu a ddewiswyd gan ddysgwyr pynciau sy'n cael eu cyfarwyddo gan ddysgwyr dros lythrennedd a rhifedd.

4.7. Mynegodd dysgwyr farn gymysg am y graddau yr oeddent yn gallu dylanwadu ar gwricwlwm eu hysgol. Dangosodd data'r arolwg fod tua hanner y dysgwyr (Derbynfa–Blwyddyn 9) yn cytuno bod eu hathrawon yn gwrando arnynt (58%) neu eu bod yn gallu dweud wrth athrawon os ydynt yn hoffi'r hyn maent yn dysgu amdano (50%). Cytunodd lleiafrif o ddysgwyr Blwyddyn 3-9 fod athrawon yn gofyn beth yr hoffent ddysgu amdano (41%) neu sut yr hoffent ddysgu (33%).[Troednodyn 6] Roedd dysgwyr ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i nodi eu bod wedi bod yn rhan o wahanol agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm. Roedd dysgwyr nad ydynt yn anabl yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi bod yn rhan o wahanol agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm o'i gymharu â dysgwyr anabl.

4.8. Yn unol â chanfyddiadau'r arolwg o ddysgwyr, mynegodd dysgwyr fu'n rhan o waith maes teithiau cwricwlwm farn amrywiol ynghylch eu dylanwad ar eu dysgu. Er bod rhai dysgwyr yn disgrifio cyfleoedd i ddewis rhwng tasgau neu weithgareddau – megis dewis problem i'w datrys neu ddewis rhwng gwahanol fathau o dasgau i'w cwblhau – roedd llawer yn teimlo bod ganddynt ddewis cyfyng o ran gwir gynnwys eu gwersi. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi cael dweud eu dweud ac yn credu ei fod yn helpu i roi hwb i gymhelliant ac ymgysylltiad.

4.9. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr sy'n rhan o deithiau cwricwlwm yn teimlo bod y cwricwlwm a brofwyd ganddynt yn darparu cyfleoedd i ddysgu am bethau sy'n bwysig iddynt o'r byd y tu allan i'r ysgol. Ar draws lleoliadau cynradd ac uwchradd, roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi dysgu ystod eang o themâu, yn enwedig pethau yr ystyrir yn berthnasol yn y byd go iawn. Cyfeiriwyd at brosiectau oedd yn canolbwyntio ar bynciau fel electroneg a phrosiectau oedd yn hybu gwerthfawrogiad o ddiwylliant, gyda dysgwyr yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu sy'n eu helpu i ddeall a llywio'r byd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

### Ymgysylltiad cyfyngedig gyda rhieni a'r gymuned wrth gynllunio'r cwricwlwm, ond pocedi o lwyddiant i ddysgu ohonynt

4.10. Er bod mwyafrif ymatebwyr yr arolwg rhieni (66%) wedi dweud eu bod wedi bod yn rhan o gynllunio'r cwricwlwm drwy glywed gan eu hysgol sut y gallant gefnogi dysgu eu plentyn, dywedodd llawer llai eu bod wedi cymryd rhan yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm trwy rannu eu syniadau (40%), cyfrannu eu profiad/arbenigedd i gefnogi addysgu a dysgu (41%) neu drwy roi adborth ar y cwricwlwm (38%). Yn gyffredinol,

[6] Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i ddysgwyr Derbyn Blwyddyn 2.

cytunodd llai na hanner (41%) eu bod yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt trwy eu cynnwys nhw mewn trafodaethau ar y cwricwlwm.

4.11. Roedd awydd rhieni a gofalwyr am fwy o wybodaeth am yr hyn oedd yn cael ei ddysgu yn un o'r themâu a godwyd amlaf mewn ymatebion i gwestiynau arolwg testun agored.

4.12. Roedd adroddiadau rhieni o'u hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm hefyd yn amrywio yn ôl nodweddion ysgolion a dysgwyr – roedd rhieni dysgwyr anabl yn llai tebygol na rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl o adrodd bod ganddynt gyfleoedd i fod yn rhan o'r rhan fwyaf o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chynllunio'r cwricwlwm.

4.13. Dywedodd llawer o ymarferwyr sy'n ymwneud ag astudiaethau ansoddol eu bod wedi ymgynghori â rhieni a gofalwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm, fel arfer trwy arolygon rhieni. Adroddwyd bod y gweithgaredd ymgysylltu hwn wedi'i ddefnyddio i lywio cynlluniau'r cwricwlwm, ar adegau yn nodi themâu i'w harchwilio oedd yn gysylltiedig â Meysydd o'r cwricwlwm. Nid yw'r safbwyntiau hyn gan ymarferwyr, sydd yn gadarnhaol ar y cyfan, yn gwbl gyson â'r data a gasglwyd yn yr arolwg o rieni a gofalwyr, a oedd yn dangos nad oedd llawer o rieni yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar gynllunio'r cwricwlwm trwy eu cyfranogiad a'u hadborth. Dylid ystyried hyn ochr yn ochr â rhai o ganfyddiadau'r arolwg o rieni/gofalwyr sy'n awgrymu bod cynyddu cydweithio heb hefyd feithrin rhyddid i weithredu ymhlith rhieni yn ymddangos yn gysylltiedig yn negyddol â lefelau ymddiriedaeth a chanfyddiadau o gynnydd tuag at wireddu dyheadau'r cwricwlwm.

4.14. Adroddodd llawer o ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau eu bod yn gwerthfawrogi mewnbwn gan rieni a gofalwyr i helpu i greu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion unigol dysgwyr. Er gwaethaf hyn, nododd rhai ymarferwyr a gyfrannodd at astudiaethau ansoddol ac ymchwil teithiau cwricwlwm anawsterau yr oeddent wedi'u hwynebu wrth ymgysylltu â rhieni. Mewn rhai achosion, nododd uwch arweinwyr fod ymgysylltu â rhieni yn heriol oherwydd diffyg dealltwriaeth canfyddedig o'r Cwricwlwm i Gymru, gyda disgwyliadau wedi'u gwreiddio mewn model cwricwlwm mwy cyfarwydd (model cwricwlwm yn seiliedig ar gynnyrch) sy'n canolbwyntio ar raddau a chanlyniadau asesu cyfunol; mewn ychydig o achosion eraill, nododd ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau AHY fod profiadau negyddol rhieni eu hunain o addysg yn ymddangos fel rhwystr rhag ymgysylltu.

### Pwyslais ar gydweithio wrth gynllunio cwricwlwm

4.15. Adroddwyd bod cydweithio wedi bod yn ganolog i ddulliau ysgolion o gynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys cydweithio rhwng athrawon o fewn ysgolion ac, i raddau llai, trwy weithgarwch ysgol-i-ysgol i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm. Er enghraifft, nododd y mwyafrif helaeth o athrawon, mewn perthynas â chynllunio cwricwlwm eu hysgol, y bu cydweithio rhwng athrawon (92%), a nododd y mwyafrif y bu cydweithio â dysgwyr (80%), ag ysgolion cynradd (72%) a gyda llywodraethwyr (64%). Nododd llai o athrawon, tua hanner, y cafwyd cydweithio â rhieni neu ofalwyr (58%) ac ysgolion uwchradd (57%).

4.16. Ar draws pob ffynhonnell ddata, adroddwyd y bu ffocws allweddol ar gydweithio i gefnogi cynllunio cwricwlwm mewn sawl maes, gan gynnwys cynllunio ysgol gyfan; pennu blaenoriaethau cwricwlwm; gosod themâu, pynciau a chysyniadau i'w harchwilio trwy weithredu'r cwricwlwm; cytuno meysydd ar gyfer ymholiadau proffesiynol; dulliau o gefnogi lles emosiynol a meddyliol; a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

4.17. Canfu ymchwil ansoddol hefyd fod cydweithio – cydweithio mewnol oddi fewn ysgolion a chydweithio allanol (ysgol-i-ysgol) – yn cael ei gydnabod yn eang fel ffactor pwysig wrth gefnogi cynllunio a gwireddu cwricwlwm. Adroddwyd bod cydweithio o'r fath wedi helpu meithrin ymgysylltiad ac ymddiriedaeth ymhlith staff, a ystyriwyd yn hanfodol wrth gefnogi gwireddu'r cwricwlwm. Canfu ymchwil ansoddol enghreifftiau o gydweithio mewnol mwy bwriadol a phwrpasol o fewn ysgolion. Adroddodd ymarferwyr hefyd weithgarwch cyd-gynllunio ychwanegol i ganiatáu i athrawon fyfyrio ar eu cynlluniau cwricwlwm a rhannu dysgu, gyda'r nod o gefnogi cydlyniant wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm mewn ysgolion unigol.

4.18. Adroddwyd bod cydweithio allanol yn cymryd sawl ffurf, gan gynnwys ymgysylltu â chlystyrau ysgolion, cyfranogiad mewn ffederasiynau ffurfiol, a chyfranogiad mewn rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd y cydweithio hwn, gan nodi bod cydweithio ag ysgolion eraill yn cefnogi gallu ysgolion i gymryd rhan mewn llunio cwricwlwm, gan alluogi rhannu adnoddau a syniadau y gallai ysgolion eu haddasu i'w cyd-destunau unigol, a'i fod hefyd yn annog deialog broffesiynol a rhannu arferion. Ymhlith yr ysgolion a gyfrannodd at ymchwil teithiau cwricwlwm, adroddwyd bod cydweithio wedi cryfhau o dan y trefniadau cwricwlwm newydd, a nodweddir gan symud o ymgysylltu ad-hoc i gynllunio cydweithredol mwy strwythuredig a phwrpasol. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio gan glystyrau a gwaith mapio cwricwlwm ar y cyd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gydlynu a dod i

gytundeb ar agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm. Adroddwyd bod hyn wedi cefnogi dealltwriaeth ar y cyd wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Blynyddoedd 6 a 7, gan helpu i egluro disgwyliadau ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 sy'n dod i mewn ar draws gwahanol feysydd a phynciau.

**Arferion sy'n cefnogi cynllunio cwricwlwm trylwyr**

4.19. Nododd mwyafrif yr uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon a holwyd fod y dull yn eu hysgol wedi cynnwys nifer o arferion sy'n cael eu cydnabod fel dulliau sy’n cefnogi trylwyredd wrth gynllunio cwricwlwm. Y rhain oedd: dysgu o ymholiad proffesiynol (nododd 60% o uwch arweinwyr a 44% o athrawon eu bod wedi cyfranogi "cryn dipyn" neu "lawer" yn y dull hwn), defnyddio ymchwil addysgol (63% o uwch arweinwyr, 41% o athrawon) neu rannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau lleol neu rwydweithiau clwstwr (65% o uwch arweinwyr, 49% o athrawon). Mae hyn yn dangos bod gweithgareddau sy'n cefnogi trylwyredd wrth gynllunio cwricwlwm yn cael eu cynnal yn gyson gan gyfran uwch o uwch arweinwyr nag o athrawon.

4.20. Roedd amrywiaeth yn nefnydd arferion cynllunio cwricwlwm ymysg uwch arweinwyr, gyda rhai is-grwpiau yn fwy tebygol o nodi bod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys yr arferion hyn, sef y rhai sydd â chyfrifoldeb am arweinyddiaeth cwricwlwm penodol, ymarferwyr mwy profiadol, a'r rhai sy'n addysgu mewn ysgolion gyda chanran is o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Adroddwyd am yr arferion hyn hefyd gan gyfran uwch o uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (o'i gymharu ag uwch arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg). Ymhlith athrawon, roedd y rheiny mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol nag athrawon mewn ysgolion uwchradd o adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn ymholiadau proffesiynol a rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau lleol neu glystyrau i gefnogi cynllunio cwricwlwm. Roedd y rheiny oedd â llai na 3 blynedd o brofiad yn fwy tebygol na'r rheiny â 11-30 mlynedd o brofiad i adrodd eu bod yn ymwneud â'r arferion cynllunio cwricwlwm hyn; ac roedd y rhai mewn ysgolion gyda chanran is o ddysgwyr ag ADY hefyd yn fwy tebygol o fod wedi adrodd eu bod yn rhan o weithgaredd o'r fath.

### Dibenion yn ganolog cynllunio cwricwlwm

4.21. Dywedodd mwyafrif yr uwch arweinwyr a'r athrawon a holwyd fod dealltwriaeth ar y cyd yn eu hysgolion ar sut roedd cwricwlwm eu hysgol yn cefnogi eu dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y pedwar diben (84% o uwch arweinwyr a 73% o athrawon). Mewn ymatebion o gwestiynau testun agored yr arolwg, nododd rhai uwch arweinwyr ac athrawon eu bod yn gweld gwerth gweithio tuag at y pedwar diben a'r ffocws o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar greu cysylltiadau rhwng pynciau a Meysydd.

4.22. Adroddodd nifer o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaethau ansoddol fod y pedwar diben yn sail i lawer o'u gwireddu cwricwlwm. Nododd yr ysgolion hyn fod hyn wedi arwain at fwy o ffocws yn ystod trafodaethau am gynllunio cwricwlwm a dulliau addysgegol ar ddibenion dysgu, gydag ymarferwyr yn myfyrio ar *pam* a *sut* roedd agweddau penodol ar y cwricwlwm yn cael eu haddysgu. Dywedodd rhai uwch arweinwyr ac athrawon fod trafodaeth ynghylch dibenion y cwricwlwm weithiau'n cynnwys defnyddio mewnbwn gan ddysgwyr (yn amlach mewn cyd-destunau cynradd nag uwchradd).

4.23. Roedd ymchwil gydag ysgolion teithiau cwricwlwm yn adleisio canfyddiadau’r astudiaethau ansoddol, gan ddatgelu'n gyson bod y pedwar diben wedi cael eu croesawu gan ysgolion. Adroddod ysgolion teithiau cwricwlwm eu bod yn defnyddio'r pedwar diben ac elfennau eraill o'r Fframwaith (yn enwedig y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) i lywio’r gwaith o drefnu ac adolygu eu themâu, prosiectau a chwestiynau ymholi. Er mwyn cefnogi eu gwaith cynllunio cwricwlwm, ymgymerodd ysgolion â chydweithio mewnol yn yr ysgol i ymgorffori'r pedwar diben, weithiau'n neilltuo amser i ganolbwyntio ar nodweddion pob diben i helpu athrawon i'w dehongli a chefnogi dealltwriaeth dysgwyr o'u pwysigrwydd.

### Strwythurau a rolau ysgolion wedi'u sefydlu i gefnogi cynllunio cwricwlwm

4.24. Er nad yw Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud newidiadau i strwythurau staffio, dangosodd tystiolaeth o astudiaethau ansoddol fod rhai ysgolion wedi ad-drefnu staff a threfniadau rheoli i gefnogi’u gwaith o wireddu’r cwricwlwm. Weithiau roedd yr ad-drefnu hwn yn cynnwys creu arweinwyr Ardal a oedd yn gyfrifol am arwain ar gynllunio cwricwlwm o fewn eu Meysydd penodol. Adroddodd ysgolion eu bod wedi cyflwyno rolau arwain a strwythurau staffio i alinio â gofynion y cwricwlwm.

4.25. Mewn ysgolion uwchradd roedd trefniadaeth rolau yn tueddu i adlewyrchu arbenigeddau pwnc blaenorol. Mewn rhai achosion, roedd hwn yn benderfyniad yr oedd ysgolion wedi'i wneud yn gynnar yn eu gwaith cynllunio cwricwlwm. Mewn achosion eraill (fel y nodwyd yn gynharach yn adran 3.4), roedd ysgolion wedi treialu neu ystyried cyflwyno dull rhyngddisgyblaethol o strwythurau a chynnwys staffio cyn dychwelyd i drefniadau blaenorol sy'n seiliedig ar bwnc neu gyfadran.

4.26. Mae'r dulliau amrywiol hyn yn dangos bod y Fframwaith yn darparu hyblygrwydd sy'n caniatáu i ysgolion gymryd ystod o ddulliau o ran eu trefniadaeth fewnol i gefnogi cynllunio cwricwlwm tra’n cefnogi dibenion Cwricwlwm i Gymru.

**Dulliau integreiddiol o gynllunio cwricwlwm**

4.27. Roedd dulliau o gynllunio cwricwlwm a ddisgrifir gan gyfranogwyr yn yr astudiaethau ansoddol yn cyfeirio at ddulliau integreiddiol o dri math – 1) dulliau sy'n integreiddio cynllunio cwricwlwm, addysgeg ac asesu; 2) dulliau sy'n integreiddio pynciau, disgyblaethau neu Feysydd; a 3) dulliau sy'n integreiddio elfennau o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys er enghraifft y pedwar diben a'r chwe Maes, datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a'r egwyddorion addysgegol.

4.28. Yn gysylltiedig â hyn, roedd tystiolaeth o ddulliau integreiddiol yn cael eu cymryd i gynllunio a gweithredu Meysydd penodol. Dangosodd yr astudiaeth ansoddol ar iechyd a lles fod cynnwys y Maes Dysgu Iechyd a Lles wedi galluogi ysgolion i fabwysiadu dull holistaidd o gefnogi lles dysgwyr, yn cwmpasu datblygiad corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol. Adroddodd ymarferwyr fod hyn wedi codi statws lleso fewn y cwricwlwm, weithiau gan arwain at fwy o ddyrannu amser ar gyfer y Maes hwn. Roedd pob ysgol yn yr astudiaeth ansoddol yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr fel hyder a gwytnwch. Adroddodd ymarferwyr sy'n gweithio mewn darpariaeth AHY fod iechyd a lles yn aml wrth wraidd eu holl addysgu a'u dysgu

4.29. Gofynnwyd i ddysgwyr fu’n rhan o ymchwil teithiau cwricwlwm a oedd y cwricwlwm yn eu helpu i weld y cysylltiadau rhwng gwahanol bynciau. Cafwyd ymatebion cymysg, gyda dysgwyr ysgol gynradd yn gyffredinol yn cyfeirio'n amlach na dysgwyr uwchradd at enghreifftiau o'r cysylltiadau rhwng pynciau yn yr ysgol. Rhoddodd dysgwyr ysgol gynradd enghreifftiau o sut roedd gan wahanol brosiectau neu bynciau tasgau rhifedd integredig ochr yn ochr â hanes a daearyddiaeth. Nododd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd fod rhai cysylltiadau pwnc yn fwy amlwg iddynt nag eraill a

bod athrawon weithiau'n gwneud cysylltiadau â phethau yr oeddent yn eu hastudio mewn Meysydd eraill o'r cwricwlwm. Roedd dysgwyr ym Mlwyddyn 9 yn teimlo, wrth iddynt symud ymlaen trwy flynyddoedd ysgol, fod llai o gysylltiadau trawsbynciol wrth iddynt dreulio amser yn edrych yn fwy manwl i bynciau penodol.

4.30. Adlewyrchwyd y safbwyntiau cymysg hyn mewn ymatebion arolwg gan ddysgwyr ysgolion uwchradd. Dywedodd lleiafrif o ddysgwyr Blwyddyn 7 i 9 a arolygwyd (31%) eu bod yn gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau yr oeddent yn dysgu amdanynt yn yr ysgol, gyda thua hanner (45%) yn anghytuno â hyn.

4.31. Yn y cyfamser, mynegodd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr a mwyafrif yr athrawon hyder yn eu gallu i gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a Meysydd Dysgu a Phrofiad. Roedd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr a mwyafrif yr athrawon hefyd yn teimlo bod eu hymarfer addysgu yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws Meysydd.

**Pwyslais ar ehangder wrth gynllunio cwricwlwm**

4.32. Cyfeiriodd nifer o'r ysgolion a gyfrannodd at ymchwil ansoddol at ffyrdd y ceisiodd eu dulliau o gynllunio’r cwricwlwm ddarparu addysg eang a chytbwys a phrofiad dysgu holistaidd, gan adlewyrchu dyheadau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru:

- **ffocws ar sgiliau cymdeithasol ac emosiynol:** pwysleisiodd rhai ysgolion bwysigrwydd cefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr a darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu hyder a gwytnwch. Nodwyd bod gweithredu Maes Iechyd a Lles yn cefnogi dull holistaidd o gefnogi cynnydd dysgwyr, gan ymgorffori iechyd corfforol, iechyd meddwl, lles emosiynol a chymdeithasol.
- **ffocws ar sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau sy’n hanfodol i’r pedwar diben:** mewn achosion eraill, canolbwyntiodd ysgolion ar sgiliau cyfannol (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, a chynllunio a threfnu) a sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, a chymhwysedd digidol) wrth gynllunio eu cwricwlwm. Defnyddiwyd yr elfennau hyn yn aml fel dulliau i gefnogi trefniadau cwricwlaidd. Roedd yr ysgolion hyn yn pwysleisio datblygu arweinyddiaeth ac empathi fel sgiliau gydol oes pwysig i ddysgwyr, sydd hefyd yn rhan o'r sgiliau cyfannol o fewn y Fframwaith.
- **Ffocws ar y cyd-destun lleol ac amgylcheddau effeithiol:** roedd cynllunio cwricwlwm yn aml yn ymgorffori'r amgylchedd lleol a'r cyd-destun lleol, gan gyfeirio at faterion cyfoes a chysylltiadau cymunedol i sicrhau perthnasedd i

ddysgwyr a galluogi datblygu cwricwlwm sy'n ymateb yn lleol sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr. Dywedodd llawer o uwch arweinwyr ac ysgolion eu bod yn rhoi pwyslais ar gymuned leol eu hysgol, neu ar ymdeimlad o le (weithiau yn cyfeirio at y cysyniad o *gynefin*) fel rhan o'u cynllunio cwricwlwm i hyrwyddo ymdeimlad o berthyn ymhlith dysgwyr; mae hyn hefyd yn adlewyrchu galluogydd allweddol ar gyfer cynllunio cwricwlwm cynhwysol sy'n briodol yn addysgegol a nodir yn y canllawiau Galluogi Dysgu.

# 5. Arferion addysgegol

5.1. Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwerthusiad hyd yma yn ymwneud ag arferion addysgegol. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar arolygon o ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr, ac ar astudiaethau ansoddol ac ymchwil teithiau cwricwlwm.

**Hyder bod arferion addysgegol yn adlewyrchu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru**

5.2. Adroddodd llawer o uwch arweinwyr ac athrawon lefelau cymharol uchel o hyder bod arferion addysgegol yn eu hysgolion yn adlewyrchu agweddau allweddol o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Roedd tua dwy ran o dair i dri chwarter o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harferion addysgegol, neu arferion athrawon yn eu hysgol, yn adlewyrchu'r pedwar diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, y 12 egwyddor addysgegol a'r egwyddorion cynnydd.

5.3. Cytunodd mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr ac athrawon hefyd fod arferion addysgegol yn eu hysgolion yn adlewyrchu sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben.

5.4. Dangosodd y data yn gyson bod cyfran uwch o uwch arweinwyr, o'i gymharu ag athrawon, yn cytuno bod eu harferion addysgegol, neu arferion athrawon yn eu hysgol, wedi'u halinio â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn gyson â'r patrwm cyffredinol a welwyd yn data'r arolwg, lle mynegwyd barn fwy cadarnhaol gan uwch arweinwyr o'i gymharu ag athrawon.

**Newidiadau sylweddol i arferion addysgegol mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru, er bod llawer o amrywioldeb ar draws y system**

5.5. Dywedodd y mwyafrif o athrawon a holwyd eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i arferion addysgegol, gan gynnwys i'r pynciau a themâu o fewn y cwricwlwm; y gweithgareddau addysgu neu ddysgu y maent yn eu defnyddio; y dulliau addysgu neu ddysgu y maent yn eu defnyddio; sut maent yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol; a'u cynllunio. Roedd tua hanner yr athrawon yn cytuno eu bod wedi gwneud newidiadau i'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn eu haddysgu.

5.6. Dywedodd pob ysgol a gyfrannodd at ymchwil ansoddol eu bod wedi gwneud newidiadau, a dywedodd y mwyafrif eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i arferion addysgegol, wedi'u hysgogi gan eu hymdrechion i wireddu Cwricwlwm i

Gymru. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r egwyddorion addysgegol a amlinellir yn y Fframwaith i lywio eu haddysgu, gan arwain at gyflwyno dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Adroddwyd bod y newidiadau hyn wedi ysgogi deilliannau cadarnhaol: adroddodd ymarferwyr cynnydd yn eu bodlonrwydd proffesiynol a'u galluogedd a bod y dulliau hyn yn eu galluogi i fod yn fwy cynhwysol. Fe wnaethant hefyd arsylwi bod dysgwyr wedi dangos mwy o ymgysylltiad, hunan-ymwybyddiaeth, brwdfrydedd, a pherchnogaeth o'u dysgu a'u cynnydd.

5.7. Ni ofynnwyd cwestiynau penodol i ddysgwyr fu'n rhan o ymchwil teithiau cwricwlwm am newidiadau i addysgeg, fodd bynnag roedd y mwyafrif yn cytuno bod athrawon yn eu hysgol 'yn eu hannog i weithio'n galed'; cyfeiriodd dysgwyr hefyd at gamau a gymerwyd gan athrawon i annog mwy o annibyniaeth yn eu dysgu. Nododd dysgwyr mewn nifer o ysgolion cynradd eu bod wedi cael cyfleoedd i ddewis lefel her tasgau amrywiol, gan symud ymlaen i dasgau neu gwestiynau mwy heriol dros amser. Ystyriwyd bod hyn yn deg gan ei fod yn galluogi dysgwyr i leisio barn a dylanwadu dweud ar y gwaith a gwblhawyd ganddynt, gan sicrhau nad oedd rhai dysgwyr yn cael eu gadael ar ôl. Nododd dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod yn cael eu hannog i beidio â gofyn am gymorth gan athrawon yn rhy fuan, yn hytrach cael eu hannog i geisio eto yn unigol, a hefyd i drafod materion gyda'u cyfoedion, cyn holi'r athro.

5.8. Er gwaethaf addasiadau i arferion, gwelwyd amrywioldeb ar draws y system o ran natur a graddfa'r newid i addysgeg, wedi'i ddylanwadu gan wahanol ddehongliadau o nodau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r amrywioldeb hwn yn amlwg rhwng cyfnodau addysgol: adroddodd ysgolion cynradd yn gyffredinol eu bod wedi mabwysiadu dulliau mwy holistaidd a rhyngddisgyblaethol; er bod ysgolion uwchradd hefyd wedi adrodd newidiadau i arferion, roedd llai o dystiolaeth o newid ar raddfa eang. Mewn rhai achosion, canfuwyd bod newidiadau i strwythurau staffio hefyd wedi cyfrannu at ddulliau gwahanol o addysgu a dysgu. Canfu astudiaethau ansoddol fod rhai ysgolion uwchradd wedi ad-drefnu trefniadau staffio yn seiliedig ar arbenigeddau pwnc, nad oeddent wastad yn arwain at ddull mwy rhyng-ddisgyblaethol tuag at wireddu cwricwlwm a welwyd mewn rhai ysgolion ac a hyrwyddwyd yn y Fframwaith. Ar ben hynny, yn sgil pwysau allanol - megis pryderon am gynnal cyrhaeddiad, mesurau perfformiad ac arolygiadau – roedd rhai ysgolion wedi gwneud llai o newidiadau i addysgu a dysgu mewn llythrennedd a rhifedd o'i gymharu â meysydd eraill o'r cwricwlwm, yn aml yn parhau gyda dulliau addysgegol ac asesu presennol ar gyfer pynciau fel Saesneg a Mathemateg.

### Ymateb i anghenion a diddordebau dysgwyr trwy arferion addysgegol

5.9. Cyfeiriodd ymarferwyr a gyfrannodd at ymchwil ansoddol yn aml at bwysigrwydd mabwysiadu arferion addysgegol oedd yn ymateb i anghenion a diddordebau dysgwyr. Pwysleisiodd ymarferwyr bwysigrwydd adolygu a hunanwerthuso cyson i gefnogi gwelliannau parhaus nid yn unig i gynllunio’r cwricwlwm, ond hefyd wrth weithredu eu cynlluniau cwricwlwm i sicrhau bod eu harferion addysgegol yn diwallu anghenion dysgwyr.

5.10. Adroddodd ysgolion fu’n rhan o ymchwil ansoddol eu bod yn defnyddio addysgeg a strategaethau gwahaniaethol mewn ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Roedd hyn yn cynnwys nodi deilliannau dysgu arfaethedig (y cyfeirir atynt ar adegau fel amcanion dysgu), meini prawf llwyddiant, cymorth a dulliau addysgu a dysgu. Yn ymarferol, roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau llai, a darparu mwy o gymorth un-i-un pwrpasol. Cyfeiriodd nifer o ysgolion at gamau yr oeddent wedi'u cymryd i dreialu ac ymgorffori grwpiau cyrhaeddiad cymysg, a adroddodd rhai eu bod wedi helpu i feithrin amgylchedd dysgu mwy cynhwysol. Nododd eraill fod y trawsnewid i grwpiau gallu cymysg wedi bod yn anodd i rai ymarferwyr a oedd yn fwy cyfarwydd â dosbarthiadau wedi’u trefnu fesul setiau dysgu a hefyd bod rhieni wedi ffafrio trefniadau blaenorol lle roedd dysgwyr yn cael eu grwpio yn ôl gallu.

5.11. Canfu'r astudiaeth ansoddol oedd yn canolbwyntio ar degwch a chynwysoldeb fod yr holl ysgolion sy'n rhan o'r ymchwil benodol honno wedi gwneud newidiadau i ymgorffori ac adlewyrchu anghenion dysgwyr fel rhan o'u cwricwlwm, gan gefnogi tegwch a chynhwysoldeb. Mae'r ysgolion hyn yn aml yn adrodd mwy o ffocws ar nodi anghenion dysgwyr i lywio addysgeg gwahaniaethol a chymorth wedi'i dargedu, gan danlinellu ymrwymiad i sicrhau tegwch yn y ffordd y mae dysgwyr yn profi'r cwricwlwm. Nododd yr astudiaeth ansoddol ar degwch a chynwysoldeb bod rhai ysgolion wedi adrodd bod cynllunio a gwireddu'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer anghenion amrywiol yn cyfrannu at fanteision o ran ymgysylltu â dysgwyr.

5.12. Mewn rhai ysgolion a gymerodd ran yn ystod yr ymchwil ansoddol, ystyriwyd arferion fel mabwysiadu addysgeg berthynas a dulliau sy'n seiliedig ar drawma yn y Maes Iechyd a Lles fek ffyrdd pwysig o ymateb i anghenion a chefndiroedd dysgwyr, tra hefyd yn cefnogi ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol.

**Ffocws ar arferion addysgegol sy'n darparu profiadau perthnasol, dilys a diddorol i ddysgwyr**

5.13. Mae ymarferwyr wedi rhoi sylw agos i ddatblygu dulliau addysgegol sy'n helpu i sefydlu a chynnal ymgysylltiad dysgwyr. Disgrifiodd ymarferwyr o wahanol leoliadau sy'n cymryd rhan yn yr astudiaethau ansoddol eu hymdrechion i sicrhau ymgysylltiad trwy ffocws ar brofiadau sy'n berthnasol ac yn ddiddorol, ac ar gynllunio profiadau addysgu a dysgu sy'n ysgogol, dilys a phwrpasol. Roedd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr addysgu (92%) a'r mwyafrif o athrawon (82%) yn cytuno eu bod yn hyderus yn eu gallu i ddarparu profiadau dilys a phwrpasol i ddysgwyr.

5.14. Adroddodd llawer o gyfranogwyr yr astudiaethau ansoddol eu bod wedi mabwysiadu dulliau ymholi ac ymchwil o fewn y cwricwlwm neu wedi cynyddu'r pwyslais ar ddulliau addysgegol o'r fath. Defnyddiodd rhai ymarferwyr y dulliau hyn fel ffordd o: integreiddio diddordebau dysgwyr a'u profiadau personol i'r cwricwlwm, hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb a chefnogi datblygiad sgiliau (gan gynnwys meddwl yn feirniadol) a gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.

**Esblygiad athrawon fel hwyluswyr, gan annog mwy o gyfrifoldeb ymysg dysgwyr**

5.15. Disgrifiodd rhai ymarferwyr a gyfrannodd at astudiaethau ansoddol bwyslais esblygol ar ddulliau addysgegol a oedd yn ymgorffori addysgu dan arweiniad ymarferydd neu addysgu uniongyrchol ochr yn ochr â ffocws cynyddol ar yr hyn a ddisgrifiwyd mewn sawl ffordd fel 'athro fel hwylusydd' neu ddulliau oedd yn canolbwyntio ar y dysgwr. Mae hyn yn adlewyrchu canllawiau statudol Cwricwlwm Cymru sy'n cyfeirio at 'ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol'.

5.16. Disgrifiodd rhai ymarferwyr y newid hwn fel symud o sefyllfa lle roedd dysgwyr yn profi *cwricwlwm a addysgir* (gyda ffocws ar gaffael cynnwys) i *gwricwlwm a ddysgir*, lle mae'r athro yn hwyluso neu'n arwain dysgu gyda mwy o ffocws ar ymholi, ac ar ddysgu profiadol a dilys. Adroddwyd hefyd bod ail-edrych ar ddulliau addysgu wedi helpu uwch arweinwyr ac athrawon i gymryd rhan mewn trafodaethau am 'ddibenion' sylfaenol addysgu a dysgu, gan eu hysgogi i fyfyrio ar pam fod cynnwys penodol yn cael ei ddarparu.

5.17. Sylwodd uwch arweinwyr ac athrawon fod y newid canfyddedig hwn tuag at athrawon fel hwyluswyr yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu, ac i gael mwy o alluogedd. Yn ymarferol, cefnogwyd dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd mewn

perthynas â sgil benodol a dewis lefelau priodol o her, gan gymryd mwy o berchnogaeth o'u dysgu a'u cynnydd unigol.

# 6. Arferion asesu

6.1. Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwerthusiad hyd yma yn ymwneud ag arferion asesu. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar arolygon uwch arweinwyr ac athrawon, rhieni/gofalwyr a dysgwyr, ac o astudiaethau ansoddol ac ymchwil teithiau cwricwlwm.

**Newidiadau sylweddol i ddulliau a ffocws asesu, er uwch arweinwyr ac athrawon yn cyflwyno tystiolaeth amrywiol**

6.2. Bu newidiadau sylweddol i ddulliau asesu a ffocws asesu, yn ôl mwyafrif yr uwch arweinwyr a gwblhaodd arolwg yn ystod y gwerthusiad; adroddodd gyfran sylweddol is o athrawon (tua hanner) y bu newidiadau i asesu. Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno y bu newidiadau sylweddol gan athrawon i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol.

6.3. Disgrifiodd ymarferwyr fu'n rhan o ymchwil ansoddol y gwerthusiad ystod o newidiadau i arferion asesu. Roedd yr enghreifftiau a gyflwynwyd amlaf yn ymwneud â: llunio modelau asesu newydd; archwilio gwahanol arferion asesu, wedi'u llywio gan Cwricwlwm i Gymru; ystyried blaenoriaethau ar gyfer yr hyn sy'n bwysig mewn dysgu a'r goblygiadau ar gyfer asesu.

6.4. Er bod newidiadau i fodelau a phrosesau asesu wedi digwydd, roedd ymarferwyr yn cydnabod yr angen i barhau i adolygu a mireinio trefniadau cwricwlwm ac asesu.

**Adroddiadau amrywiol o newidiadau i asesu yn ôl y rhai mewn gwahanol gyd-destunau a rolau**

6.5. Dywedodd uwch arweinwyr ac athrawon mewn ysgolion uwchradd, yn amlach nag athrawon mewn ysgolion cynradd, eu bod wedi profi heriau wrth ddatblygu arferion asesu o dan y trefniadau newydd. Adroddwyd bod datblygu trefniadau asesu a oedd yn adlewyrchu ethos Cwricwlwm i Gymru ac yn addas ar gyfer cyd-destunau ysgolion uwchradd wedi cymryd cryn amser, yn enwedig wrth drafod a dehongli'r camau cynnydd a'r disgrifiadau dysgu. Nododd ysgolion heriau penodol wrth asesu a deall cynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r Maes Iechyd a Lles.

6.6. Adroddwyd hefyd bod amseriad rhyddhau manylebau TGAU hefyd wedi cyflwyno heriau, gan ofyn i ysgolion ailfeddwl dulliau addysgu a dysgu ar ôl cynllunio cwricwlwm cychwynnol ar gyfer Blynyddoedd 7-9. Mae tystiolaeth a gasglwyd trwy astudiaethau ansoddol hyd yma yn dangos bod tensiwn yn bodoli mewn ysgolion

uwchradd rhwng mabwysiadu dulliau holistaidd, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a'r angen i baratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau a asesir yn allanol.

**Newid tuag at asesu ffurfiannol ac unigol**

6.7. Ar draws ysgolion a lleoliadau, esboniodd uwch arweinwyr ac athrawon fod newidiadau i arferion asesu wedi golygu newid amlwg o asesiadau crynodol a ffocws ar gyrhaeddiad i ddulliau mwy ffurfiannol ac unigol. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth ymhlith ymarferwyr o wahanol ddibenion asesu, gydag ysgolion yn defnyddio asesu at ddibenion ffurfiannol a chrynodol fel y bo'n briodol.

6.8. Roedd dulliau asesu a adroddwyd gan ysgolion a lleoliadau yn aml yn cymryd golwg 'plentyn cyfan' ar ddysgwyr, gyda'r nod o gydnabod eu nodweddion unigol, eu mannau cychwyn a'u cynnydd ehangach, gan edrych y tu hwnt i dargedau cyrhaeddiad ar sail oedran. Roedd ysgolion a lleoliadau o'r farn bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi newid cadarnhaol tuag at ddulliau mwy holistaidd o asesu pob dysgwr, yn enwedig uwch arweinwyr ac athrawon mewn ysgolion cynradd ac mewn darpariaeth AHY, lle ystyriwyd bod arferion asesu wedi'u teilwra yn diwallu anghenion amrywiol dysgwyr yn well.

6.9. Adroddodd yr holl ysgolion fu’n rhan o'r astudiaeth ansoddol ar degwch a chynwysoldeb fod Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi rhoi cyfle iddynt ddatblygu cwricwlwm wedi'i deilwra i anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau. Nododd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn asesu cynnydd dysgwyr, gan gynnwys rhoi ysgogiad newydd i ddulliau o adnabod a chefnogi anghenion unigol.

**Pwyslais ar egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu a ffocws ar asesu ar gyfer cynnydd**

6.10. Dywedodd y mwyafrif helaeth o arweinwyr ac athrawon a arolygwyd fod eu harferion asesu eu hunain yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol dysgwyr ac yn defnyddio egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu. Mae arferion asesu a adroddwyd gan uwch arweinwyr ac athrawon yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd: dywedodd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon eu bod yn hyderus bod arferion asesu yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol, yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol, a bod asesu wedi'i ymgorffori o fewn addysgu a dysgu.

6.11. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr fu’n rhan o'r astudiaethau ansoddol hefyd yn pwysleisio bod eu hymarfer yn defnyddio dulliau ffurfiannol o asesu fwyfwy. Yn benodol, fe wnaethant ddisgrifio:

- Ail-ymweld ag egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu: er bod dulliau o'r fath wedi'u hymgorffori yn flaenorol mewn ystod eang o ysgolion a lleoliadau, adroddwyd bod y rhain wedi cael mwy o sylw fel rhan o weithredu Cwricwlwm i Gymru
- Canolbwyntio ar 'asesu ar gyfer cynnydd’, symud o lefelau a deilliannau i ffocws ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth dysgwyr
- Cychwyn gyda'r hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, a defnyddio cwestiynu personol wedi’i deilwra a phroffiliau cynnydd dysgwyr er mwyn deall sut roedd dysgwyr unigol yn symud ymlaen
- Cefnogi hunanymwybyddiaeth dysgwyr ac ymgysylltiad â'u taith addysgol trwy'r newid tuag at ddulliau mwy ffurfiannol.

**Mwy o ddefnydd o hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid**

6.12. Adroddodd ymarferwyr a dysgwyr a gyfrannodd at ymchwil ansoddol fod dysgwyr yn cymryd rhan gynyddol mewn asesu trwy gyflwyno, neu drwy bwyslais o'r newydd ar, asesu gan gymheiriaid a hunanasesu. Adroddwyd bod asesu gan gymheiriaid a hunanasesu wedi helpu i feithrin mwy o berchnogaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'u cynnydd. Anogwyd dysgwyr i gymryd rhan mewn gosod deilliannau neu dargedau disgwyliedig yn ogystal â hunanasesu, gan helpu i fagu hyder ac annibyniaeth sy'n agweddau ar y sgiliau sy'n hanfodol i’r pedwar diben.

**Barn gymysg ymysg dysgwyr ar eu dealltwriaeth o’u cynnydd**

6.13. Mae newidiadau i asesu wedi rhoi mwy o ffocws ar adnabod a chefnogi anghenion dysgwyr unigol; mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi mabwysiadu dull mwy holistaidd ar asesu, gyda'r nod o adlewyrchu nodweddion unigol, nodwedd o’r trefniadau cwricwlwm oedd yn cael ei ystyried gan uwch arweinwyr ac athrawon i fod o fudd i gynnydd dysgwyr.

6.14. Dywedodd dysgwyr eu bod yn teimlo’u bod yn ymwybodol o’u cynnydd – roedd y mwyafrif o'r dysgwyr a holwyd yn cytuno bod athrawon yn eu helpu i ddeall pan fyddant yn gwneud cynnydd yn eu dysgu. Adroddodd dysgwyr ysgolion cynradd a

holwyd farn fwy cadarnhaol am sut y gwnaeth athrawon eu helpu i ddeall eu cynnydd na dysgwyr mewn ysgolion uwchradd.

6.15. Roedd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymchwil ansoddol gyda dysgwyr fel rhan o waith maes y cwricwlwm yn adlewyrchu data arolwg i raddau helaeth, gan ddangos bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn gwybod pan oeddent yn gwneud cynnydd. Ar adegau, fodd bynnag, teimlwyd bod adborth a roddwyd ar dasgau ac asesiadau yn aneglur neu'n ddryslyd.

6.16. Rhoddodd dysgwyr enghreifftiau o adborth parhaus neu ddulliau asesu a ddefnyddir yn eu hysgolion i'w helpu i ddeall sut yr oeddent wedi symud ymlaen neu beth oedd angen iddynt ei wneud i adeiladu ar eu dysgu. Roedd hyn yn aml yn cynnwys gosod nodau dysgu neu feini prawf llwyddiant ar gyfer pynciau neu dasgau, gydag asesu neu hunanasesu yn canolbwyntio ar ddeall cynnydd tuag at yr amcanion hyn. Adroddodd dysgwyr mewn rhai ysgolion y byddai athrawon yn eu hannog i wella eu gwaith trwy dynnu sylw at agweddau cadarnhaol ond hefyd nodi sut y gellid gwella gwaith ymhellach.

6.17. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo nad oeddent yn derbyn adborth defnyddiol neu adeiladol ar adegau. Esboniodd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd, yn arbennig, bod dulliau darparu adborth yn amrywio rhwng pynciau ac athrawon. Roedd adroddiadau ysgrifenedig diwedd tymor neu ddiwedd blwyddyn hefyd yn cael eu hystyried gan ddysgwyr fel ffordd bwysig o ddeall cynnydd. Roedd rhai cyfranogwyr yn y trafodaethau hyn yn teimlo bod natur yr adborth a ddarparwyd (yn enwedig lle defnyddiwyd labeli fel 'datblygu' i ddisgrifio cynnydd) yn eu di-ysgogi mewn perthynas â'u cynnydd.

### Amrywioldeb yn y newidiadau i asesu ac aliniad â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru

6.18. Mewn rhai cyd-destunau, parhaodd ysgolion a lleoliadau i ddefnyddio dulliau asesu – megis defnyddio disgrifyddion lefel generig – y barnwyd eu bod yn 'gweithio', ond nad oeddent yn cyd-fynd yn dda â dyheadau Cwricwlwm i Gymru. Lle roedd hyn yn wir, esboniodd ysgolion eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r dulliau hyn oherwydd bod ganddynt ryddid o dan y diwygiadau cwricwlwm ac asesu i benderfynu ar y dulliau oedd, yn eu tyb hwy, fwyaf priodol i'w dysgwyr.

6.19. Fe gynigiodd rhai uwch arweinwyr ac athrawon sylwadau pellach ar aneglurder canfyddedig y canllawiau ar asesu a cynnydd.

# 7. Galluogwyr a chyfyngiadau wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru

7.1. Mae’r dystiolaeth o'r gwerthusiad ffurfiannol hyd yma yn cynnig dirnadaeth o nifer o alluogwyr a chyfyngiadau sy'n effeithio ar y graddau y gall ymarferwyr weithredu Cwricwlwm i Gymru drwy eu arferion.

7.2. Roedd arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, ymholi proffesiynol, cydweithio, a gallu wrth gynllunio cwricwlwm yn amlwg iawn yn yr adroddiadau a ddarparwyd gan gyfranogwyr am yr hyn sydd wedi bod yn cefnogi neu'n galluogi eu gwaith o wireddu’r cwricwlwm hyd yma.

7.3. Roedd tystiolaeth ynghylch y rhwystrau rhag gweithredu’r cwricwlwm yn amlwg yn y data a gasglwyd. Nododd cyfranogwyr nifer o agweddau a oedd yn gyfyngiadau wrth weithredu'r cwricwlwm. Y mwyaf amlwg ymhlith y rhain oedd diffyg canllawiau penodol ac amserol, diffyg mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, a diffyg amser a gallu i wireddu'r posibiliadau a'r uchelgeisiau o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

7.4. Yn ddealladwy, roedd llawer o'r galluogwyr a'r cyfyngiadau yn rhannu ffocws cyffredin: roedd ansawdd a/neu lefelau uchel o gydweithio, dysgu proffesiynol, gallu wrth gynllunio cwricwlwm a chanllawiau/offerynnau, er enghraifft, yn galluogi arferion da; i'r gwrthwyneb, adroddwyd bod absenoldeb y rhain yn cyfyngu ar ymdrechion ymarferwyr ac uwch arweinwyr.

7.5. Yn yr adrannau canlynol, cyflwynir canfyddiadau am alluogwyr a chyfyngiadau sy'n seiliedig ar ganfyddiadau yr holl ffynonellau yn gyntaf - ymchwil ansoddol a chanfyddiadau arolwg. Ar ddiwedd pob adran cyflwynir canlyniadau o'r arolwg sy'n ymwneud yn benodol â phob galluogydd/cyfyngiad i roi arwydd o ba mor eang mae arferion yn ymwneud â phob galluogydd a/neu lefelau hyder ymarferwyr mewn perthynas ag arferion perthnasol.

### Arweinyddiaeth

7.6. Cyfeiriwyd at ddealltwriaeth a hyder uwch arweinwyr wrth arwain y diwygiadau fel elfennau hanfodol ar gyfer cefnogi gwireddu’r cwricwlwm gan gyfranogwyr yr ymchwil ansoddol. Cyfeiriodd gyfranogwyr at rôl bwysig arweinwyr wrth weithio’n bwrpasol i feithrin amgylchedd cynhwysol, cefnogol, gweledigaeth gyffredin, galluogedd ymarferwyr a dulliau sy'n seiliedig ar ymholi i gefnogi’r cwricwlwm. Roedd ymchwil

teithiau cwricwlwm hefyd wedi tanlinellu pwysigrwydd arweinyddiaeth fel galluogydd, gan ddylanwadu ar raddfa y newidiadau ac ar sefydlu diwylliant o ymgysylltu ac ymddiriedaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi gwireddu’r cwricwlwm. Ystyriwyd bod arweinyddiaeth effeithiol yn alluogydd allweddol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- cychwyn a gyrru newid mewn ffyrdd a oedd yn strategol ac yn sicrhau cefnogaeth ymysg staff
- sicrhau cydlyniant wrth gynllunio'r cwricwlwm, a chydlynu trafodaethau ag arweinwyr Meysydd Dysgu i gyd-gynllunio’r cwricwlwm
- trefnu a goruchwylio modelau arweinyddiaeth ddosbarthedig, gan roi perchnogaeth i staff ar agweddau ar gynllunio a monitro cwricwlwm
- datblygu gallu athrawon, cydnabod pa feysydd oedd angen dysgu proffesiynol pellach a darparu neu sicrhau mynediad at gymorth
- rheoli amser, sicrhau bod capasiti gan athrawon perthnasol i ganolbwyntio ar gynllunio a gwerthuso cwricwlwm pan fo angen

7.7. Mae'n bwysig nodi bod enghreifftiau wedi'u darparu nid yn unig o *arweinyddiaeth* bwrpasol mewn termau eang, ond *o arweinyddiaeth cwricwlwm ac addysgegol* effeithiol yn benodol; adroddwyd bod dulliau newydd o wireddu'r cwricwlwm a'r addysgeg a'r dulliau asesu cysylltiedig yn ddibynnol ar effeithiolrwydd *arweinyddiaeth cwricwlwm* yn benodol.

7.8. Adroddodd cyfranogwyr ymchwil ansoddol fod y ddibyniaeth ar allu arweinyddiaeth unigol ymhlith uwch arweinwyr mewn ysgolion wedi arwain at amrywioldeb ar draws y system, gan gyfrannu at anghysondebau o fewn ansawdd gweithredu’r cwricwlwm.

7.9. Ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth cwricwlwm, mynegodd y mwyafrif o uwch arweinwyr hyder yn eu gallu fel arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr fwyaf hyderus am eu gallu i gefnogi eraill i ddatblygu eu haddysgu a'u dysgu. Yr agwedd ar arweinyddiaeth cwricwlwm yr oedd uwch arweinwyr lleiaf hyderus yn ei chylch oedd y gallu i gysylltu pobl i gydweithio ar gynllunio cwricwlwm ac asesu. Roedd hyder uwch arweinwyr mewn agweddau ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm yn amrywio yn ôl eu profiad a chyd-destun yr ysgol lle yr oedd ymatebwyr yn gweithio.

7.10. Mewn ymateb i'r arolwg, cytunodd lleiafrif o uwch arweinwyr (26%) fod arweinyddiaeth o ansawdd ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.[Troednodyn 7]

**Dysgu proffesiynol**

7.11. Roedd dysgu proffesiynol yn cael ei ystyried yn alluogydd allweddol wrth gefnogi arferion cynllunio, addysgeg ac asesu, o ystyried cymhlethdod y cwricwlwm a maint y newidiadau i ymarfer sy'n ofynnol o dan y Cwricwlwm i Gymru. Cyfeiriodd ymarferwyr at bwysigrwydd sicrhau bod gan ysgolion fynediad at gymorth gan arbenigwyr allanol (er enghraifft, dysgu proffesiynol a chyngor gan arbenigwyr cwricwlwm o'r tu allan i'r ysgol) a chymorth yn yr ysgol gan ymarferwyr.

7.12. Adroddodd ymarferwyr fod gwireddu'r cwricwlwm wedi'i gyfyngu gan ddiffyg amser ac adnoddau ariannol, yn enwedig y cyllid sydd ei angen i ryddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol. Nododd ymarferwyr bod prinder amser ac adnoddau hefyd wedi ychwanegu at bwysau gwaith ac yn cyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer cynllunio a chydweithio.

7.13. Mae tystiolaeth o bob ffynhonnell yn dangos bod dysgu proffesiynol sy'n adeiladu gallu wrth gynllunio cwricwlwm yn cael ei ystyried yn bwysig gan ymarferwyr. Disgrifiodd cyfranogwyr ymchwil ansoddol hyn fel dysgu proffesiynol sy'n helpu i ddatblygu ymrwymiad ymarferwyr, gwybodaeth am, a dealltwriaeth a sgiliau ar gyfer cynllunio, addysgu ac asesu mewn ffyrdd sy'n gyson â dyheadau'r cwricwlwm. Pwysleisiodd rhai uwch arweinwyr bwysigrwydd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu effeithiolrwydd ymarferwyr wrth *arwain* newid a gwella cwricwlwm – gan adeiladu eu hyder i weithio gydag eraill mewn ffyrdd sy'n adeiladu gallu ar y cyd.

7.14. Nododd mwyafrif yr arweinwyr canol, athrawon, gweithwyr cymorth dysgu a staff eraill ysgolion a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel (60%). Roedd tua hanner (57%) yn cytuno bod y dysgu proffesiynol yr oeddent wedi derbyn wedi bod o ansawdd uchel. Dywedodd cyfran debyg o uwch arweinwyr ac athrawon fod ganddynt fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel (59% yn achos y ddau). Nododd tua hanner (51%) o arweinwyr canol, athrawon, gweithwyr cymorth dysgu a staff eraill yr ysgol eu bod wedi bod yn rhan o

[5] Darparwyd nodyn gwybodaeth ar gyfer yr opsiwn hwn yn nodi "mae'r 'system addysg' yn cyfeirio at rôl Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, consortia / partneriaethau rhanbarthol, Estyn a rhanddeiliaid eraill wrth gefnogi ysgolion".

ddigon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu eu hanghenion. Roedd hyn yn is na chyfran y penaethiaid a'r uwch arweinwyr a atebodd y cwestiwn hwn (62%).

**Cydweithio**

7.15. Ystyriwyd bod cydweithio rhwng ymarferwyr fel rhan o fentrau dysgu proffesiynol ffurfiol yn bwysig wrth gefnogi ymdrechion ymarferwyr, gan gynnwys trwy glystyrau a rhwydweithiau. Roedd ymarferwyr o'r farn bod y cydweithio hwn yn galluogi rhannu arbenigedd, gan adeiladu hyder ymarferwyr i dreialu syniadau a dulliau newydd. Canfu ymchwil ansoddol fod cydweithio (cydweithio o fewn yr ysgol a chydweithio rhwng ysgolion) wedi dylanwadu ar ddulliau ysgolion o wireddu cwricwlwm ac addasiadau i addysgeg.

7.16. Digwyddodd cydweithio hefyd y tu allan i fentrau dysgu proffesiynol ffurfiol mewn gweithgarwch cydweithredol o fewn ysgolion, yn aml mewn perthynas â chynllunio cwricwlwm. Ystyriwyd bod rhwydweithiau (er enghraifft, clystyrau a ffederasiynau) yn fuddiol iawn ar gyfer rhannu adnoddau a gwybodaeth, gan ddarparu cyfleoedd mwy anffurfiol ar gyfer trafod, a darparu cyfeiriad lle gall hyn fod yn brin.

7.17. Dangosodd canfyddiadau'r arolwg fod y mwyafrif helaeth o athrawon (92%) ac uwch arweinwyr (98%) yn cytuno y bu cydweithio rhwng athrawon ar gynllunio cwricwlwm.

**Ymholi proffesiynol**

7.18. Lle roedd ymholi proffesiynol yn digwydd, adroddwyd ei fod yn alluogydd pwysig a oedd wedi caniatáu ysgolion i feithrin diwylliant agored, myfyriol a oedd yn cefnogi dysgu parhaus ac arloesedd wrth gynllunio a gweithredu’r cwricwlwm. Mae rhai ysgolion wedi ymgorffori ymholi proffesiynol yn systematig, trwy ymchwil neu weithgarwch dysgu gweithredol mewn grwpiau, gan ddefnyddio'r broses hon i ymchwilio i addasrwydd addysgeg ac asesu yn benodol ar gyfer eu cyd-destunau a'u dysgwyr. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan y ffocws ar ymholi proffesiynol, gan ddadlau nad oedd ganddynt arbenigedd cynllunio cwricwlwm a bod angen mwy o arweiniad sylfaenol arnynt, yn hytrach na modelau cymhleth sy'n seiliedig ar ymchwil.

7.19. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid oedd arferion ymholi proffesiynol yn arbennig o eang – dangosodd ganlyniadau'r arolwg bod 44% o athrawon wedi dweud bod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol yn cynnwys cryn dipyn neu lawer o ddysgu drwy ymholi proffesiynol, a bod 41% yn defnyddio ymchwil addysgol fel rhan o'u dull o gynllunio cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag athrawon o adrodd bod

cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol yn cynnwys dysgu drwy ymholi proffesiynol (60%) a defnyddio ymchwil addysgol (63%). Fodd bynnag, ar y cyfan nid yw'r dystiolaeth gyda'i gilydd yn awgrymu bod ysgolion wedi ymwneud yn eang ag ymholi proffesiynol neu ymchwil.

### Gallu wrth gynllunio cwricwlwm

7.20. Rhagdybiaeth bwysig sy'n sail i wireddu Cwricwlwm i Gymru yw bod gan uwch arweinwyr ac athrawon y gallu i gyd-gynllunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Er bod ymarferwyr yn gyffredinol yn teimlo'n hyderus yn eu gwybodaeth addysgegol bresennol, nid oedd gan lawer ohonynt arbenigedd penodol blaenorol wrth gynllunio cwricwlwm, gan arwain at ddulliau gwahanol o fewn ac ar draws lleoliadau - megis mabwysiadu dulliau cynllunio cwricwlwm nad oeddent bob amser yn gyson â chwricwlwm model proses sy'n sail i Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Cryfhawyd gallu wrth gynllunio cwricwlwm lle sefydlodd arweinwyr rolau penodol, megis arweinwyr Maes, gyda chyfrifoldeb penodol am gydlynu'r broses gymhleth ac dwys o gynllunio cwricwlwm.

7.21. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oedd gallu wrth gynllunio cwricwlwm yn eang ymhlith athrawon – dangosodd ganlyniadau'r arolwg bod ychydig dros hanner (54%) o athrawon wedi mynegi hyder yn eu harbenigedd cynllunio cwricwlwm eu hunain. Dywedodd canran sylweddol uwch o uwch arweinwyr, o'i gymharu ag athrawon, eu bod yn hyderus yn eu harbenigedd cynllunio cwricwlwm eu hunain (73%).

### Canllawiau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm

7.22. Bu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn gatalydd ar gyfer newid sylweddol i'r cwricwlwm ar draws ysgolion drwy ddarparu'r strwythur statudol (pedwar diben, Meysydd Dysgu a Phrofiad, themâu trawsbynciol) sy'n angenrheidiol ar gyfer cynllunio cwricwlwm lleol.

7.23. Roedd tua hanner yr athrawon, arweinwyr canol a gweithwyr cefnogi dysgu (44%) a phenaethiaid a'r uwch arweinwyr (49%) yn cytuno bod y canllawiau ehangach (er enghraifft ar Hwb), y cymorth a'r adnoddau yr oeddent wedi'u defnyddio wedi diwallu eu hanghenion.[Troednodyn 8] Yn yr un modd, cytunodd tua hanner yr uwch arweinwyr

[8] Nododd blwch gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "Gallai hyn gynnwys canllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar Hwb neu gymorth a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol".

(56%) ac athrawon (55%) fod canllawiau, cymorth ac adnoddau a ddefnyddiwyd ganddynt wedi diwallu eu hanghenion.

7.24. Canfu'r gwerthusiad fod ymarferwyr wedi defnyddio agweddau ar y Fframwaith i lywio gwireddu'r cwricwlwm. Adroddwyd bod canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru a deunyddiau ategol eraill a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi ymarferwyr i ail-lunio eu haddysgu tuag at fodelau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Cyfeiriwyd at yr egwyddorion addysgegol fel enghraifft o ganllawiau a oedd wedi cefnogi meddwl a chynllunio rhai ysgolion. Fodd bynnag, lleisiodd uwch arweinwyr ac athrawon feirniadaeth o elfennau eraill o'r canllawiau mewn ymatebion i'r arolwg ac mewn ymchwil ansoddol. Canfu ymchwil ansoddol ac ymatebion arolwg testun agored fod canllawiau i gefnogi cynllunio cwricwlwm yn cael eu hystyried gan ymarferwyr yn annigonol ac yn aneglur. Disgrifiwyd canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru fel rhai 'amwys', gan adael ymdeimlad o ansicrwydd ymhlith ymarferwyr wrth geisio trosi disgwyliadau'r cwricwlwm yn sefyllfaoedd ymarferol. Mewn rhai achosion, adroddodd ysgolion fod dogfennaeth a gyhoeddwyd i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm yn cael ei chynhyrchu ar ôl i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm. Roedd galwadau am fwy o, a gwell, arweiniad, yn enwedig o ran asesu, a mynediad at fwy o enghreifftiau o ymarfer arloesol neu ddiddorol.

7.25. Yn yr astudiaeth ansoddol Iechyd a Lles ac yn ystod gwaith maes teithiau cwricwlwm, adroddodd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg bod diffyg adnoddau addysgu Cymraeg, a’u bod, o ganlyniad, yn treulio amser ychwanegol yn paratoi neu gyfieithu deunyddiau.

7.26. Nododd ysgolion a gyfrannodd at yr astudiaeth ansoddol ar degwch a chynwysoldeb fod Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at fwy o ffocws ar y themâu hyn ac ar gefnogi anghenion dysgwyr unigol. Fodd bynnag, roedd teimlad cyffredinol ymhlith yr ysgolion hyn nad oedd y canllawiau yn ddigon penodol ynghylch dulliau o ddarparu cefnogaeth i rai grwpiau bregus. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon o'r farn bod y dull o deilwra’r cwricwlwm ar gyfer unigolion wrth wireddu'r cwricwlwm yn mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol, fodd bynnag, nododd ymarferwyr y byddent wedi elwa o ganllawiau manylach ar sut y gall Cwricwlwm i Gymru gefnogi dysgwyr ag ADY, dysgwyr yr effeithir arnynt gan dlodi neu'r rheiny â nodweddion gwarchodedig eraill.

7.27. Archwiliodd astudiaeth ansoddol arall sut y mae’r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wireddu mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD). Dywedodd mwy na hanner yr ymarferwyr AHY heb fod yn

UCD mai prin iawn oedd y cyswllt gyda'u hawdurdod lleol ynghylch cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ac felly roeddent wedi derbyn ond ychydig iawn o arweiniad i ddeall a gwireddu agweddau mandadol o’r Fframwaith. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad y gallai fod angen mwy o gymorth gan awdurdodau lleol i sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion dysgwyr AHY nad ydynt mewn UCD. Amlygodd yr astudiaeth hefyd y byddai’n fuddiol pe bai dysgu proffesiynol mwy perthnasol ar gael i UCDau a darpariaeth AHY heb fod yn UCD sy'n mynd i'r afael yn benodol â chyd-destunau unigryw ac anghenion amrywiol dysgwyr AHY.

### Amser a chapasiti

7.28. Roedd diffyg amser, capasiti ac adnoddau wedi profi i fod yn gyfyngiad i athrawon ac uwch arweinwyr, gyda'r ffactorau hyn yn cael eu hamlygu dro ar ôl tro fel rhai fu’n atal arloesedd addysgegol a datblygu cwricwlwm. Adroddwyd bod diffyg adnoddau ariannol wedi rhwystro gallu ysgolion i ariannu dysgu proffesiynol, darparu staff cynorthwyol angenrheidiol, a chynnig dysgu dilys, profiadol penodol fel teithiau preswyl, a thrwy hynny effeithio ar y nod o sicrhau tegwch, yn enwedig ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd.

7.29. Dangosodd sylwadau gan ymarferwyr, er eu bod yn cefnogi gweledigaeth a dyheadau'r diwygiadau'r cwricwlwm, eu bod yn teimlo bod y weledigaeth yn anodd ei gwireddu yn yr hinsawdd bresennol o ddiffyg cyllidebau digonol, y nifer cynyddol o ddysgwyr ag anghenion dwys, prinder capasiti ymysg staff ac amser cyfyngedig i gefnogi gweithredu’r cwricwlwm. Cyfeiriodd uwch arweinwyr at ddiffyg cyllid ar gyfer staff cynorthwyol, sy'n effeithio ar allu ysgolion i gefnogi datblygiad cwricwlwm a darparu profiadau dilys i ddysgwyr i gyfoethogi eu dysgu.

7.30. Dangosodd ymatebion yr arolwg mai dim ond lleiafrif bach o athrawon (10%) ac uwch arweinwyr (9%) oedd yn cytuno bod digon o amser wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru. Cytunodd 4% o athrawon ac uwch arweinwyr fod digon o gyllid wedi'i ddyrannu i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru.

### Galluogedd athrawon

7.31. Cafodd y galluogedd a gynigir o dan y trefniadau cwricwlwm ei groesawu'n eang gan ymarferwyr ac uwch arweinwyr a oedd yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd i gynllunio cwricwlwm a oedd yn bwrpasol ac yn ymatebol i gyd-destun lleol ac anghenion dysgwyr. Roedd y rhyddid proffesiynol hwn yn cefnogi'r canfyddiad o fwy o greadigrwydd ymhlith staff a mwy o berchnogaeth o'r cwricwlwm. I'r gwrthwyneb,

roedd y galluogedd hwn wedi'i chyfyngu gan ddiffyg dulliau safonol o weithredu ar draws y system, a arweiniodd at bryder ac ofn ymhlith rhai ymarferwyr y gallai eu cwricwlwm neu arferion asesu a ddatblygwyd yn lleol gael eu hystyried maes o law yn anaddas neu'n anghywir a'u gorfodi i newid.

# 8. Deilliannau cynnar

8.1. Yn yr adrannau canlynol, cyflwynir canfyddiadau ar ddeilliannau cynnar, gan gyfeirio yn gyntaf at synthesis o ganfyddiadau ar draws gwahanol ffynonellau'r gwerthusiad – ymchwil ansoddol ac arolygon rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Ar ddiwedd pob adran cyflwynir canlyniadau o'r arolwg sy'n ymwneud yn benodol â phob deilliant sy'n dod i'r amlwg er mwyn rhoi arwydd o ba mor eang yw'r deilliant hwnnw ar draws y system.

## Beth mae'r gwerthusiad yn ei ddweud wrthym am ddeilliannau cynnar ar gyfer dysgwyr yn sgil diwygio'r cwricwlwm?

### Profiadau cadarnhaol i ddysgwyr

8.2. Adroddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr a gymerodd ran mewn grwpiau trafod fel rhan o'r ymchwil teithiau cwricwlwm brofiadau dysgu cadarnhaol yn yr ysgol. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi bod eu hysgol yn eu hannog i weithio'n galed, gan ddarparu cymorth priodol os a phan fyddant yn wynebu heriau penodol yn eu dysgu. Roedd llawer o ddysgwyr yn cytuno bod athrawon ar gael i ddarparu cymorth pan roedd ei angen arnynt. Fel y nodwyd ym Mhennod 4, roedd dysgwyr yn teimlo bod y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd i ddysgu am bethau sy'n bwysig iddynt o'r byd y tu allan i'r ysgol. Mynegodd dysgwyr fodlonrwydd gydag ehangder y cwricwlwm, gyda'r mwyafrif a gymerodd ran yn yr ymchwil teithiau cwricwlwm yn cytuno eu bod yn 'dysgu amrywiaeth eang o bethau yn yr ysgol'. Dywedodd dysgwyr eu bod yn mwynhau dysgu trwy ddulliau sy'n seiliedig ar brosiectau a themâu, y profiadau a gafwyd trwy ymweliadau y tu allan i'r ysgol a'r cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored (yn enwedig ymhlith dysgwyr cynradd).

8.3. Yn gyffredinol roedd uwch arweinwyr ac athrawon hefyd yn ystyried fod profiadau dysgwyr o'r cwricwlwm yn gadarnhaol a'u bod yn fwy ymgysylltiedig â'u dysgu ar ôl cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Canfu ymchwil ansoddol fod uwch arweinwyr ac athrawon yn teimlo bod rhai dysgwyr yn ymwybodol o'r newid o gwricwlwm sy'n seiliedig ar gynnwys (trosglwyddo pwnc) i un sy'n canolbwyntio ar broses (hyrwyddo dealltwriaeth ystyrlon a datblygu sgiliau).

8.4. Adroddwyd bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth wybod at bwy i droi am gefnogaeth, a effeithiodd yn gadarnhaol ar amgylchedd cyffredinol yr ysgol.

8.5. Roedd llawer o uwch arweinwyr ac athrawon yn ystyried bod dysgwyr yn ymgysylltu yn fwy â'u taith addysgol ar ôl cyflwyno'r diwygiadau i'r cwricwlwm. Roedd

ymarferwyr yn teimlo bod hyn oherwydd bod y diwygiadau wedi bod yn gatalydd ar gyfer trawsnewid dulliau addysgegol tuag at ymholi, dysgu drwy brofiad dysgu a dysgu dilys a oedd yn helpu i wella ymgysylltu. Adroddodd ysgolion eu bod yn canolbwyntio ar wneud dysgu yn berthnasol trwy integreiddio cyd-destunau bywyd go iawn, materion cyfoes, a chysylltiadau cymunedol i feithrin ymgysylltiad. Ar gyfer dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), adroddwyd bod cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol ac addysgegol yn cefnogi gwell ymgysylltiad a chymhelliant, gan fod y ffocws ar ddatblygiad personol ochr yn ochr â chynnydd academaidd. Roedd rhai ysgolion hefyd wedi arsylwi cysylltiad rhwng cynllunio rhagweithiol a gwireddu cwricwlwm cynhwysol sy'n diwallu anghenion unigol a lefelau gwell o bresenoldeb ymhlith dysgwyr.

8.6. Roedd mwyafrif y dysgwyr a holwyd yn cytuno â thri o'r chwe datganiad yn ymwneud â'u barn gyffredinol o'u profiad cwricwlwm yn yr ysgol, yn benodol: bod eu hathrawon yn eu helpu i ddeall pryd maen nhw'n gwella yn eu dysgu (67%), eu bod nhw'n mwynhau mynd i'r ysgol (66%), ac eu bod nhw'n mwynhau'r hyn maen nhw'n ei ddysgu yn yr ysgol (63%). Ychydig yn llai, tua hanner y dysgwyr a holwyd, oedd yn cytuno â'r tri datganiad arall, yn benodol: eu bod yn teimlo y gallant fod yn nhw eu hunain yn yr ysgol (58% - gofynnwyd i ddysgwyr Blwyddyn 3-9 yn unig), eu bod yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt yn yr ysgol (51%) a’u bod yn credu bod yr ysgol yn deg i bawb (47%).

8.7. Roedd dysgwyr ysgolion cynradd yn gyson yn ateb yn fwy cadarnhaol ynghylch eu profiadau o addysgu a dysgu na dysgwyr ysgol uwchradd. Dywedodd cyfran uwch o ddysgwyr anabl, o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn anabl, eu bod wedi cael yr holl gymorth yr oedd ei angen arnynt yn yr ysgol a bod eu hathrawon yn eu helpu i ddeall pryd yr oeddent yn gwella dysgu.

**Barn gymysg ymhlith dysgwyr ar gynnydd tuag at y pedwar diben**

8.8. Roedd mwyafrif y dysgwyr a holwyd yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i symud ymlaen tuag at y rhan fwyaf o agweddau ar y pedwar diben. Roedd y mwyafrif o ddysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i:

- gredu ynddynt eu hunain a'r hyn y gallant ei wneud (dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6), bod y gorau y gallant fod (dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6)
- bod yn iachach (dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 2) neu ddod yn iach ac yn hyderus (dysgwyr Blwyddyn 3 i 9)

- meddwl am syniadau newydd (dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6), bod yn fwy creadigol (dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6) a dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau (dysgwyr Blwyddyn 3 i 9)
- bod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y byd (dysgwyr Blwyddyn 3-6) neu ddeall a gofalu am bobl a'r byd (dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6)

8.9. Roedd cyfrannau is o ddysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn eu helpu i ddod yn uchelgeisiol (49% o ddysgwyr Blwyddyn 3-9) a dod yn foesegol ac yn wybodus (38% o ddysgwyr Blwyddyn 7-9).[Troednodyn 9]

8.10. Pan oedd gwahaniaethau mewn ymatebion i'r arolwg yn ymwneud â chynnydd rhwng gwahanol fathau o ymatebwyr dysgwyr, y patrwm oedd bod dysgwyr ysgol gynradd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn fwy cadarnhaol na'u cymheiriaid mewn ysgolion uwchradd: roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno bod eu dysgu yn eu helpu i ddod yn uchelgeisiol, bod yn fwy creadigol, datrys problemau a bod yn iach ac yn hyderus. Mae'r patrwm hwn o ymatebion yn gyson â data a gasglwyd yn ystod ymchwil ansoddol gyda dysgwyr. Hefyd, yn y rhan fwyaf o achosion, adroddodd dysgwyr anabl farn llai cadarnhaol am eu cynnydd tuag at y pedwar diben na dysgwyr nad oeddent yn anabl.

8.11. Dangosodd data arolwg fod y graddau y teimlai dysgwyr bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i symud ymlaen tuag at bedwar diben yn gysylltiedig yn gryf â'u perthynas â'r ysgol. Mae data'r arolwg yn awgrymu bod canfyddiad dysgwyr o'u cynnydd tuag at y pedwar diben yn gysylltiedig yn gryf â'u lefel o ymddiriedaeth yn eu hysgol. Roedd canfyddiad dysgwyr o'u cynnydd tuag at y pedwar diben hefyd yn gysylltiedig â'u canfyddiadau o'u lles, ond yn llai cryf.

### Ymgysylltiad dysgwyr â chynllunio cwricwlwm a mwy o berchnogaeth

8.12. Roedd y theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm yn cynnwys deilliant y dylai dysgwyr deimlo bod pobl yn gwrando arnynt a'u gwerthfawrogi wrth i gwricwlwm ysgol gael ei gynllunio. Dangosodd data'r arolwg safbwyntiau cymysg ymhlith dysgwyr am y cyfleoedd a roddir iddynt ddylanwadu ar eu cwricwlwm ysgol, gyda chanran uwch o ddysgwyr ysgol gynradd yn nodi eu bod wedi ymgynghori â nhw ynglŷn â chynllunio cwricwlwm. Roedd dysgwyr a gymerodd ran mewn grwpiau trafod yn anghytuno neu'n ansicr bod ganddynt lais mewn perthynas *â'r hyn* roeddent yn ei

[9] Cyflwynwyd amrywiadau gwahanol o rai cwestiynau sy'n briodol i'w hoedran, gan gynnwys y rhai ar y pedwar diben, i ddysgwyr yn y Derbyn i Flwyddyn 2, Blynyddoedd 3 i 6 a Blynyddoedd 7 i 9

ddysgu amdano yn yr ysgol. Fodd bynnag, adroddodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod yn cael dewisiadau o bryd i'w gilydd o ran *sut* roeddent yn cwblhau rhywfaint o'u gwaith. Mynegodd dysgwyr awydd clir am fwy o ddewis ar gynnwys y cwricwlwm, gan gynnig y dylid cydbwyso pynciau y mae eu hathrawon yn ystyried yn bwysig gyda phynciau y maent yn eu gweld yn ddiddorol neu sgiliau bywyd hanfodol fel cyllidebu a thalu biliau, coginio a diogelwch ar-lein. Awgrymodd dysgwyr y byddai sicrhau eu bod yn gallu dylanwadu ar y cwricwlwm yn gwella morâl a chymhelliant i ddysgu.

8.13. Nododd llawer o ymarferwyr yn ystod yr ymchwil ansoddol fod dysgwyr wedi datblygu mwy o ymdeimlad o berchnogaeth am eu haddysg a'u cynnydd. Mae arferion asesu newydd yn aml yn ymgorffori asesu cymheiriaid a hunanwerthuso, a adroddwyd ei fod wedi meithrin mwy o annibyniaeth a chyfrifoldeb dysgwyr. Roedd ymarferwyr yn gweld bod hyn oherwydd bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n weithredol i gymryd rhan mewn hunanasesu, i fyfyrio ar feini prawf llwyddiant, a gwella eu gwaith eu hunain yn barhaus, gan sicrhau eu bod yn ganolog i'r broses asesu barhaus. Mewn rhai achosion, defnyddiodd ysgolion fewnbwn y dysgwr a llais y dysgwr yn benodol wrth gynllunio’r cwricwlwm i'w cefnogi ymhellach i gymryd perchnogaeth.

**Lles**

8.14. Mynegodd y mwyafrif helaeth o'r dysgwyr a holwyd farn gadarnhaol mewn perthynas â'u lles, gan nodi eu bod yn teimlo eu bod yn dda mewn rhai pethau (89%), ac yn meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanynt (87%). Roedd y mwyafrif hefyd yn cytuno bod yna lawer o bethau y gallent fod yn falch ohonynt (81%), eu bod wedi bod yn cyd-fynd yn dda gyda phobl (77%), eu bod yn meddwl y bydd pethau da yn digwydd yn eu bywyd (74%) a'u bod wedi bod mewn hwyliau da (73%).

8.15. Roedd trafodaethau gyda dysgwyr yn ystod ymchwil teithiau cwricwlwm yn cynnwys pynciau sy'n gysylltiedig â lles. Cyfeiriodd dysgwyr at nifer o fecanweithiau neu drefniadau a oedd ar waith i gefnogi eu lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol, gan gynnwys enwi 'oedolion dibynadwy' y gallent fynd ati i drafod materion personol neu les (ysgol uwchradd) a grwpiau 'Ffynnu' (cynradd) lle neilltuwyd amser penodol ar gyfer sesiynau llesiant.

8.16. Cyfeiriodd dysgwyr mewn rhai ysgolion at y ffyrdd y mae ymddygiad athrawon yn cefnogi eu lles a'u hagweddau at ddysgu yn fwy cyffredinol. Nododd y dysgwyr hyn fod anogaeth gadarnhaol, cael llais yn yr hyn a ddysgir yn yr ysgol, a derbyn cymorth gyda'u gwaith pan fo angen yn cael effaith fuddiol ar eu cymhelliant a'u lles.

8.17. Dangosodd trafodaethau fod natur yr help a dderbyniwyd yn dylanwadu ar ymdeimlad o les y dysgwyr. Adroddwyd am brofiadau cymysg ar draws ysgolion, gyda rhai yn adrodd profiadau negyddol, megis teimlo eu bod yn cael eu disgyblu'n annheg, cael gwybod am gwblhau gwaith cyn cael cefnogaeth, neu’n teimlo ‘nad oedd pobl yn gwrando arnynt’ wrth ofyn am gymorth. I’r gwrthwyneb, disgrifiodd dysgwyr mewn ysgolion eraill amgylcheddau ysgol lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n gadarnhaol gan eu hathrawon – yn yr enghreifftiau hyn, cytunodd dysgwyr eu bod yn derbyn yr help yr oedd ei angen arnynt ac yn teimlo nad oedd neb yn oedi cyn gofyn am gymorth.

**Amrywioldeb yn yr hyn y mae dysgwyr yn ei brofi ar draws gwahanol rannau o'r system**

8.18. Mae'r dystiolaeth gwerthuso ffurfiannol yn amlygu amrywioldeb sylweddol mewn arferion a phrofiad ar draws y system, gan godi pryderon ymhlith rhai ymarferwyr ynghylch tegwch profiadau i ddysgwyr. Yn gyffredinol, mynegodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd farn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd. Roedd hyn yn cynnwys eu barn mewn perthynas â bodlonrwydd gyda'r ysgol a'u lles eu hunain. Roedd eu hymatebion hefyd yn dangos eu bod yn teimlo'n eu bod yn ymwneud yn fwy ag agweddau ar gynllunio cwricwlwm gyda, er enghraifft, canrannau uwch o ddysgwyr cynradd, o'i gymharu ag uwchradd, yn adrodd bod athrawon yn gwrando arnynt ac y gallent ddweud wrth athrawon os oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn dysgu amdano ai peidio. Roedd dysgwyr cynradd hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o weld bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.

8.19. Roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy tebygol na dysgwyr anabl o leisio barn gadarnhaol ar y cwricwlwm a'u haddysg yn gyffredinol, gan gynnwys eu bodlonrwydd ag agweddau ar addysgu a dysgu a'u lles eu hunain. Roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl hefyd yn fwy tebygol na dysgwyr anabl o weld bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.

8.20. Dangosodd tystiolaeth o'r astudiaethau ansoddol fod amrywiaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, gan fod ysgolion cynradd yn mabwysiadu dulliau holistaidd yn haws nag ysgolion uwchradd. Roedd rhai ymarferwyr yn gweld bod heriau yn gysylltiedig â’r cyfnod pontio cynradd-uwchradd yn gysylltiedig â natur bwrpasol cwricwlwm cynradd, gan olygu bod dysgwyr yn cyrraedd ysgolion uwchradd gyda setiau sgiliau amrywiol, sy'n cymhlethu cynllunio ar gyfer dilyniant a thegwch.

8.21. Cyfeiriwyd o fewn yr astudiaethau ansoddol at agweddau eraill ar amrywioldeb a oedd yn dylanwadu ar brofiadau dysgwyr o'r cwricwlwm. Roedd rhai ymarferwyr yn gweld bod ysgolion a oedd eisoes yn gwneud yn dda yn ffynnu, tra bod y rhai sy'n wynebu mwy o heriau yn cael trafferth, gan awgrymu risg y gallai anghydraddoldebau addysgol presennol ehangu. Clywodd yr astudiaeth ansoddol ar degwch a chynwysoldeb bryderon a fynegwyd am ffactorau economaidd-gymdeithasol ac argaeledd anghyfartal o adnoddau a allai danseilio ymdrechion i sicrhau tegwch wrth wireddu'r cwricwlwm. Mewn rhai achosion, nododd ymarferwyr y gallai ffactorau economaidd-gymdeithasol gyfrannu at amrywiadau yn y ffordd y mae ysgolion yn ymateb i'r diwygiadau ac o bosibl ehangu bylchau mewn profiadau a deilliannau dysgwyr.

## Beth mae'r gwerthusiad yn ei ddweud wrthym am ddeilliannau cynnar ar gyfer rieni a gofalwyr yn sgil diwygio'r cwricwlwm?

### Ymgysylltu

8.22. Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod wedi ymgysylltu ac ymgynghori â rhieni/gofalwyr fel rhan o'u prosesau cynllunio cwricwlwm, yn aml trwy arolygon neu ddulliau cyfathrebu eraill. Fodd bynnag, dangosodd ymatebion yr arolwg fod profiadau yn amrywio; roedd rhai rhieni yn teimlo bod ysgolion yn gwrando arnynt, tra bod eraill yn teimlo nad oedd ysgolion yn ceisio nac yn ymateb i'w hadborth. Roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sylweddol fwy tebygol o adrodd am gyfleoedd i rannu syniadau a rhoi adborth na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

8.23. Adroddodd mwyafrif y rhieni, wedi iddynt gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau cynllunio cwricwlwm, neu gael eu hysbysu amdanynt, bod hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n gymhellol i gefnogi addysg eu plentyn. Mae modelu hafaliadau strwythurol yn awgrymu y gall y ffordd y mae cydweithio rhwng ysgolion a rhieni ar gynllunio cwricwlwm yn cael ei gynnal fod yn bwysig, yn enwedig os yw rhieni’n teimlo bod pobl yn gwrando arnynt a'u cymell gan y broses: roedd darparu cyfleoedd yn unig am fewnbwn yn gysylltiedig yn negyddol ag ymddiriedaeth rhieni yn ysgol eu plentyn.

### Canfyddiadau rhieni/gofalwyr o gynnydd a hyder yn ansawdd addysg

8.24. Roedd gan rieni farn gymysg ynglŷn â sut mae'r cwricwlwm yn ysgol eu plentyn yn cefnogi cynnydd tuag at ddyheadau Cwricwlwm i Gymru. Roedd tua hanner y rhieni

yn cytuno bod y cwricwlwm, addysgu a dysgu yn helpu eu plant i ddod yn "iach a hyderus" (55% yn cytuno), "moesegol a gwybodus" (55% yn cytuno), ac yn "fentrus a chreadigol" (53% yn cytuno). Roedd ychydig llai na hanner y rhieni (48%) yn hyderus bod eu plentyn yn dod yn "uchelgeisiol a galluog". Roedd y canfyddiadau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl sector: adroddodd rhieni ysgolion uwchradd farn llai cadarnhaol na rhieni ysgolion cynradd yn gyson ar gynnydd eu plentyn tuag at nodau Cwricwlwm i Gymru.

8.25. Roedd canfyddiadau rhieni o sut mae'r cwricwlwm, addysgu a dysgu yn helpu eu plant i symud ymlaen mewn ffyrdd eraill yn amrywio, gyda thua hanner y rhieni yn cytuno bod: athrawon eu plentyn yn deall eu cefndir, eu gallu a'u hanghenion unigol (56%); addysg eu plentyn yn cefnogi eu lles (54%); athrawon eu plentyn yn darparu'r gefnogaeth gywir i alluogi fy mhlentyn i wneud cynnydd (53%); addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion (43%) a bod addysg eu plentyn yn eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn (42%).

8.26. Roedd hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol hefyd yn gymysg, gyda thua hanner yn cytuno bod cwricwlwm yr ysgol yn helpu eu plentyn i baratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg (52%) a'u helpu i baratoi ar gyfer gwaith ac ar gyfer bywyd yn fwy cyffredinol (40% yn cytuno, 33% yn anghytuno).

8.27. Dengys data'r arolwg bod lefelau uwch o fodlonrwydd ymysg rhieni mewn perthynas â'r graddau yr oedd athrawon a staff yn: gofalu am eu plentyn (75% yn adrodd bodlonrwydd), yn ddefnyddiol (73%), yn ddibynadwy (71%), yn hawdd eu cyrraedd (70%) ac yn barod i wrando ar bryderon (68%) o gymharu ag elfennau eraill o addysg eu plentyn. Fodd bynnag, dim ond tua hanner a nododd yn gyffredinol eu bod yn fodlon ag ysgol eu plentyn (58%), yn teimlo bod yr ysgol yn eu hysbysu'n dda (57%) neu'n darparu mynediad at yr help ychwanegol sydd ei angen ar eu plentyn (49%).

8.28. Adroddodd rhieni lefelau cymysg o fodlonrwydd â'r wybodaeth a gawsant am gynnydd eu plentyn, gyda thua hanner yn dweud eu bod yn fodlon â gwybodaeth am gynnydd cyffredinol (55% yn fodlon), rhifedd (56% yn fodlon), a llythrennedd (53% yn fodlon). Dim ond rhieni dysgwyr ysgol uwchradd a ofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn fodlon â'r wybodaeth a gafwyd am gynnydd eu plentyn yn y Gymraeg; nododd lleiafrif eu bod yn fodlon â'r wybodaeth hon. Ar ben hynny, cytunodd tua hanner y rhieni eu bod yn fodlon â'r dull ac amlder rhannu gwybodaeth am gynnydd eu plentyn. Mynegodd rhieni dysgwyr anabl lefelau is o fodlonrwydd â gwybodaeth a ddarperir gan ysgolion am gynnydd eu plentyn.

8.29. Dangosodd ymatebion arolwg testun agored fod rhai rhieni wedi codi materion ynghylch sut y byddai cynnydd eu plentyn yn cael ei fesur, yn enwedig rhieni cynradd. Cododd rhieni ysgolion uwchradd bryderon yn amlach am gymwysterau, gan gynnwys arholiadau TGAU.

8.30. Canfu dadansoddiad ystadegol o'r berthynas rhwng setiau o gwestiynau wedi’u grwpio yn yr arolwg rhieni fod ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol [Troednodyn 10] yn gysylltiedig yn gryf iawn â hyrwyddo galluogedd ymysg rhieni.[Troednodyn 11] Adroddodd rhieni dysgwyr anabl lai o hyder yn ansawdd addysg ac yng ngallu eu hysgol i ddiwallu anghenion eu plentyn o'i gymharu â rhieni dysgwyr eraill.

**Lefelau amrywiol o fodlonrwydd â diwygiadau**

8.31. Er bod hanner (51%) y rhieni a holwyd wedi dweud eu bod yn gefnogol o'r diwygiadau i’r cwricwlwm yn gyffredinol, mynegodd chwarter (25%) anfodlonrwydd. Roedd y meysydd mwyaf arwyddocaol o anfodlonrwydd yn ymwneud ag asesu, cymwysterau a phontio. Roedd rhai rhieni yn cael trafferth gyda'r diffyg eglurder a phenodoldeb canfyddedig mewn arferion asesu, gan ei chael hi'n anodd deall cynnydd eu plentyn o'i gymharu â dulliau blaenorol o adrodd ar gynnydd a chyrhaeddiad. Pryder a godwyd yn aml oedd canfyddiad nad oedd digon o ffocws ar sgiliau trawsgwricwlaidd fel llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal, roedd rhai rhieni yn poeni bod yr hyblygrwydd a roddir gan y Cwricwlwm i Gymru yn gwneud y cwricwlwm yn rhy amwys ac yn agored i'w ddehongli, gan arwain at safonau a phrofiadau addysgol anghyson ar draws gwahanol ysgolion.

## Beth yw'r effeithiau ar ymarferwyr?

8.32. Mae gwireddu Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at nifer o ddeilliannau sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas ag ymarferwyr, yn cynnwys meithrin ymrwymiad proffesiynol cadarnhaol a galluogedd yn gyffredinol, er ei fod wedi'i gyfyngu gan heriau parhaus sy'n gysylltiedig ag amser a gallu ac anghysondeb yn y modd yr oedd agweddau ar Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu ar draws ysgolion yng Nghymru.

---

[10] Yn deillio o gwestiynau ar fodlonrwydd rhieni ag ysgol eu plentyn yn gyffredinol yn ogystal ag ansawdd a rhwyddineb cyfathrebu â'r ysgol, argaeledd cymorth, ansawdd y gofal a ddarperir a lefelau ymddiriedaeth rhieni mewn staff

[11] Yn deillio o gwestiynau am y rhieni yn cael eu gwrando arnynt a bod ganddynt hyder yn addysg eu plentyn yn ogystal â chymhelliant rhieni i gefnogi addysg eu plentyn

### Ymrwymiad i'r Cwricwlwm i Gymru

8.33. Ar y cyfan, canfu'r ymchwil gefnogaeth gref i egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ymhlith uwch arweinwyr ac athrawon. Dywedodd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr oedd yn addysgu ac athrawon eu bod yn fodlon gwneud newidiadau i'w harfer proffesiynol i wireddu dyheadau Cwricwlwm i Gymru. Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr yn ystyried eu hunain yn eiriolwyr dros y diwygiadau wrth siarad â chydweithwyr. Yn ogystal, roedd tua hanner yr uwch arweinwyr o'r farn bod Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na threfniadau'r cwricwlwm blaenorol. Roedd ymatebion ymarferwyr i gwestiynau testun agored yr arolwg ynglŷn â'r hyn yr oeddent yn ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru yn awgrymu y gallai'r hyblygrwydd a'r rhyddid a roddir gan y Fframwaith i gynllunio cwricwlwm wedi'u teilwra i'w cyd-destunau lleol ac anghenion dysgwyr fod yn ffactor sy'n cyfrannu at yr ymrwymiad hwn. Fodd bynnag roedd lleiafrif o athrawon yn cytuno bod y diwygiadau yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol, ac roedd ymatebion testun agored yn tynnu sylw at bryderon fod y cwricwlwm yn rhy amwys, yn agored i ddehongliad, ac yn arwain at fwy o lwyth gwaith.

### Ymdeimlad dyfnach o bwrpas

8.34. Roedd diwygiadau Cwricwlwm i Gymru wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer ailwampio dulliau addysgu mewn llawer o ysgolion. Mae'r broses hon yn meithrin ymdeimlad dyfnach o bwrpas ymhlith ymarferwyr, gan eu hysgogi i roi mwy o sylw i bwrpas sylfaenol dysgu ac arwain at drafodaethau ynghylch pam fod cynnwys penodol yn cael ei addysgu. Canfuwyd bod y newid hwn wedi ysgogi llawer o athrawon i gymryd cyfleoedd i ddangos galluogedd a chreadigrwydd. Croesawodd llawer o uwch arweinwyr yr hyblygrwydd a ddarperir o dan y trefniadau newydd, gan ei weld fel cyfle i flaenoriaethu'r hyn yr oeddent yn teimlo oedd pwysicaf i'w dysgwyr. Ar ben hynny, defnyddiodd rhai y broses gynllunio cwricwlwm i ymgymryd â diwygiadau sylfaenol o'u strwythur ac ethos ar lefel ysgol gyfan.

### Ysgogi dysgu proffesiynol

8.35. Mae gwireddu'r cwricwlwm wedi gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion a lleoliadau, yn enwedig o ran cynllunio cwricwlwm, lle nad oedd gan ymarferwyr arbenigedd a/neu brofiad blaenorol yn aml. Arweiniodd hyn

at dreulio amser sylweddol yn ymchwilio, cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol, ac ymgynghori â rhwydweithiau amrywiol a phartneriaid allanol. Dywedodd llawer o ymarferwyr eu bod wedi sefydlu diwylliant cryf o ddysgu yn eu hysgolion, gan arwain at gynnydd mewn ymholi proffesiynol. Roedd cydweithio, yn enwedig o fewn clystyrau lleol, yn ffynhonnell hanfodol o ddysgu proffesiynol, gan helpu i rannu arbenigedd, adnoddau a syniadau, gan wella hyder ymarferwyr yn y pen draw. Fodd bynnag, adroddwyd bod yr uchelgeisiau a'r dyheadau sy'n gysylltiedig â Chwricwlwm Cymru yn cael eu cyfyngu mewn llawer o achosion gan ddiffyg amser ac adnoddau ariannol sydd eu hangen i ryddhau staff ar gyfer datblygu a chydweithio.

**Mwy o ymdeimlad o fodlonrwydd a hyder y bydd dysgwyr yn symud ymlaen**

8.36. Un deilliant cadarnhaol i ymarferwyr oedd mwy o ymdeimlad o fodlonrwydd proffesiynol a galluogedd. Dywedodd llawer eu bod yn mwynhau'r hyblygrwydd i dreialu syniadau newydd ac yn teimlo bod y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd i gyflawni eu dyheadau fel athrawon. Roedd ymarferwyr yn gadarnhaol i raddau helaeth am y manteision posibl i ddysgwyr. Dangosodd data'r arolwg fod y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr (92%) wedi mynegi hyder y byddai'r cwricwlwm ysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben, yn cefnogi dysgwyr yr un mor dda i symud ymlaen waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol neu fan cychwyn (89%), ac yn gyffredinol byddai'n arwain at well cynnydd dysgwyr o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r safbwyntiau cadarnhaol hyn clywyd sawl nodyn o rybudd ar draws y dystiolaeth o’r arolygon a’r ymchwil ansoddol, gydag uwch arweinwyr ac athrawon yn mynegi'r angen am fwy o gefnogaeth ac adnoddau i gynnal arferion arloesol.

8.37. Mynegodd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon hyder bod gwahanol agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu gwireddu yn eu hysgolion mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn unol â dyheadau'r Fframwaith. Cytunodd athrawon, er enghraifft, eu bod yn hyderus y bydd gweithredu’r cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben (75%), y bydd yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen, waeth beth fo'u man cychwyn (75%) neu eu hamgylchiadau unigol (73%) ac yn galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i symud ymlaen cystal â'u cyfoedion (66%).

# 9. Casgliadau

### Casgliadau cyffredinol

9.1. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod dwy flynedd gyntaf y gwerthusiad yn dangos y bu cynnydd da ond amrywiol yn gyffredinol wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan mae newidiadau i arferion cwricwlwm ar y gweill sydd yn gyson ag amcanion y Fframwaith. Mae cefnogaeth gyffredinol i ddyheadau Cwricwlwm i Gymru ac mae mabwysiadu cwricwlwm a arweinir gan ddibenion wedi bod yn allweddol i'r cynnydd cychwynnol a wnaed. Ceir tystiolaeth o ymateb cadarnhaol i weithredu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, fel gwelir yn y newidiadau sylweddol a adroddwyd gan y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon i agweddau ar gynllunio cwricwlwm, ac arferion addysgegol. Er nad yw'r Fframwaith wedi'i wireddu'n llawn eto, ac mae llawer o gynnydd i'w wneud o hyd, mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried y camau a gwblhawyd hyd yma a natur barhaus y broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

9.2. Un nodwedd arwyddocaol o'r cynnydd hyd yma yw'r dystiolaeth o **amrywioldeb** nodedig wrth wireddu'r cwricwlwm ar draws y system. Mae'r amrywioldeb hwn yn ymwneud â sut mae'r Fframwaith wedi'i ddehongli, sut mae wedi'i wireddu ar draws y system (o ran graddau ac ansawdd y newid cwricwlwm), a sut mae dysgwyr a rhieni/gofalwyr wedi ei brofi. Mae uwch arweinwyr, athrawon, dysgwyr a rhieni/gofalwyr wahanol fathau o leoliadau, yn ogystal â rhieni dysgwyr anabl, yn adrodd profiadau amrywiol, gan awgrymu anghysondeb yn y ffordd y mae'r cwricwlwm yn cael ei wireddu a allai arwain at anghydraddoldebau, nid yn unig mewn profiadau, ond hefyd mewn deilliannau ar draws y system. Y cyd-destun ehangach ar gyfer hyn yw bod ysgolion mewn sawl rhan o Gymru yn wynebu cyfyngiadau adnoddau sydd, yn ôl adroddiadau gan ymarferwyr, yn rhwystro gallu rhai o'r ysgolion hyn i gefnogi rhai mathau o brofiadau dysgu y maent yn eu hystyried yn bwysig fel rhan o gwricwlwm cyfoethog a dilys. Bydd mynd i'r afael â'r amrywioldeb hwn yn bwysig os yw dyheadau Cwricwlwm i Gymru am gael cael eu gwireddu'n llawn, nid yn unig mewn rhai rhannau o'r system ond i bawb, mewn ffyrdd sy'n cefnogi nodau ar gyfer system addysg deg.

9.3. Cyflwynwyd barn amrywiol yn aml gan uwch arweinwyr ac athrawon ar raddfa a natur y cynnydd o ran gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr **anghysondebau** hyn yn y data arolwg, yn arbennig, yn tueddu dangos bod gan uwch arweinwyr ganfyddiadau mwy cadarnhaol o gynnydd wrth wireddu'r cwricwlwm nag athrawon.

Yn benodol, cytunodd cyfran sylweddol uwch o uwch arweinwyr fod newidiadau sylweddol wedi bod i gynnwys, aliniad arferion addysgegol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a dulliau asesu o'i gymharu ag athrawon. Mae'r anghysondebau hyn hefyd yn ymestyn i alluogedd proffesiynol, gan fod uwch arweinwyr yn llawer mwy tebygol nag athrawon i adrodd hyder yn eu harbenigedd cynllunio cwricwlwm eu hunain. Mae anghysondebau fel y rhain a amlygwyd yn data'r arolwg yn broblem gan eu bod yn awgrymu y gallai arweinwyr fod yn anymwybodol o feysydd sy'n llai datblygedig nag yr oeddent yn meddwl, gan danlinellu gwahaniaethau mewn safbwyntiau fesul rôl; yn ogystal, gellid gweld y data fel tystiolaeth bellach o'r amrywioldeb ar draws y system. Mae'r ddau yn broblem o ystyried manteision sicrhau cysondeb barn a dealltwriaeth gyffredin rhwng arweinwyr ac athrawon ynghylch y cynnydd a wnaed, a'r angen am gysondeb a chydlyniant wrth wireddu cwricwlwm ar lefel system gyfan.

9.4. Er mwyn adeiladu ar y casgliadau cyffredinol hyn, mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno casgliadau sy'n ymwneud â phenodau unigol yn yr adroddiad hwn.

**Cynllunio cwricwlwm**

9.5. Mae newidiadau ac ail-gynllunio cwricwlwm helaeth wedi digwydd mewn ysgolion, wedi'u harwain gan y pedwar diben a Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Ymddengys bod graddfa’r newid hwn wedi amrywio, gan gynnwys o fewn ysgol unigol a rhwng gwahanol fathau o ysgolion, yn enwedig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Adroddwyd yn aml am integreiddio'r gwahanol agweddau ar Fframwaith Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, gan gefnogi profiadau eang i ddysgwyr, ond mae tystiolaeth gwerthuso hyd yma yn awgrymu bod hyn yn tueddu i fod yn llai datblygedig mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn awgrymu bod angen ffocws parhaus ymhlith partneriaid ar draws y system ar feithrin y lefelau gofynnol o ymrwymiad i, dealltwriaeth o a gallu mewn cynllunio cwricwlwm, yn enwedig ymhlith athrawon ac mewn ysgolion uwchradd.

**Arferion addysgegol**

9.6. Mae llawer o ysgolion wedi mabwysiadu arferion addysgegol fel ymholiad, dysgu profiadol a dilys i alluogi gweithredu’r cwricwlwm ac mewn ymateb i anghenion dysgwyr, er bod cyfran llawer uwch o uwch arweinwyr o'i gymharu ag athrawon o'r farn bod hyn yn wir. Adroddodd uwch arweinwyr ac athrawon fod eu harferion yn cael eu llywio gan, ac yn adlewyrchu, cysyniadau ac elfennau mandadol Fframwaith

Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys yr egwyddorion addysgegol. Mae tystiolaeth yn dangos bod dulliau addysgu a dysgu yn canolbwyntio fwyfwy ar ymateb i anghenion dysgwyr unigol, trwy wahaniaethu a chynnig cymorth wedi'i dargedu. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid pwrpasol ymhlith ymarferwyr tuag at addysgeg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gyda ffocws cynyddol ar ddulliau 'yr athro fel hwylusydd'.

9.7. Yn seiliedig ar dystiolaeth gwerthuso hyd yma, mae amrywiaeth rhwng ysgolion mewn dulliau addysgegol: adroddodd ysgolion cynradd yn gyffredinol eu bod wedi mabwysiadu dulliau mwy holistaidd a rhyngddisgyblaethol, tra bod llai o dystiolaeth o newid addysgegol ar raddfa eang mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod angen rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n canolbwyntio ar arferion addysgegol i gefnogi'r gwaith o wireddu Cwricwlwm i Gymru gan ysgolion uwchradd.

**Asesu**

9.8. Mae newidiadau mewn arferion asesu wedi digwydd yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio ar anghenion a chynnydd dysgwyr unigol ac yn cynnwys mwy o bwyslais ar ddysgu ffurfiannol ac asesu gan gymheiriaid. Cyfeiriodd uwch arweinwyr yn amlach at y newidiadau hyn i'w harferion asesu o'i gymharu ag athrawon. Adroddwyd bod yr arferion hyn yn llai sefydledig mewn ysgolion uwchradd o'i gymharu ag ysgolion cynradd, rhywbeth a briodolwyd gan rai ymarferwyr i'r angen i baratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau allanol.

9.9. Clywodd y gwerthusiad farn gymysg gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr am y cymorth sydd ar gael i'w helpu i ddeall eu cynnydd. Yn gyffredinol, dywedodd dysgwyr eu bod yn teimlo'n wybodus am eu cynnydd, gyda dysgwyr ysgol gynradd yn fwy tebygol na dysgwyr uwchradd i ymateb yn gadarnhaol mewn ymatebion i'r arolwg ac ymchwil ansoddol i gwestiynau am gynnydd yn eu dysgu. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo nad oedd adborth ar dasgau ac asesiadau bob amser yn adeiladol ac weithiau'n aneglur.

9.10. Roedd tua hanner y rhieni yn cytuno eu bod yn fodlon â sut maen nhw'n derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn yn ogystal â pha mor aml maen nhw'n derbyn gwybodaeth am gynnydd. Dywedodd lleiafrif o rieni eu bod yn anfodlon â'r wybodaeth a gawsant am gynnydd eu plentyn, gan ei chael hi'n anodd deall yr adborth.

9.11. Fodd bynnag, mae ansicrwydd o hyd mewn rhai ysgolion ynglŷn â'r arferion asesu sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru, sydd wedi arwain at gadw arferion blaenorol.

Mae hyn yn dangos bod angen cymorth parhaus ar ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, mewn perthynas â datblygu eu dulliau o asesu cynnydd dysgwyr.

**Galluogwyr a chyfyngiadau**

9.12. Mae'r dystiolaeth yn darparu gwybodaeth ar yr amodau sy'n cefnogi gwireddu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen i sicrhau arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i gefnogi galluogedd, ymrwymiad, gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu wrth gynllunio cwricwlwm ymysg ymarferwyr. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod newid a gweithredu cwricwlwm naill ai wedi'i alluogi neu ei gyfyngu gan y ffactorau canlynol:

- **Arweinyddiaeth:** lle mae arweinyddiaeth yn bwrpasol, yn seiliedig ar weledigaeth glir o sut y gellir gweithredu'r cwricwlwm o fewn yr ysgol ac yn canolbwyntio ar addysgeg ddysgu ac addysgu briodol, mae hyn wedi bod yn alluogydd cryf; i'r gwrthwyneb, adroddwyd bod llwyddiant dulliau cwricwlwm newydd yn dibynnu ar allu arweinyddiaeth unigol, sy'n golygu bod amrywioldeb ar draws y system yn codi lle nad oedd hwn mewn lle, ac felly'n cyfyngu'r gallu i wireddu cwricwlwm o ansawdd uchel mewn ffordd gyson.
- **Dysgu proffesiynol**: lle roedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, gan gynnwys ymholiad proffesiynol a mynediad at arferion sy'n seiliedig ar ymchwil, mae hyn wedi bod yn alluogydd pwysig; fodd bynnag, mae amser ac adnoddau ariannol cyfyngedig, ynghyd â phwysau llwyth gwaith, yn parhau i gyfyngu ar fynediad ac ymgysylltiad, gan adael llawer o uwch arweinwyr ac athrawon heb gefnogaeth ddigonol i ddiwallu eu hanghenion dysgu proffesiynol.
- **Cydweithio:** mae cydweithio – ffurfiol ac anffurfiol – yn sbardun pwerus wrth ddatblygu'r cwricwlwm, gan helpu ymarferwyr i rannu arbenigedd, meithrin hyder, ac arloesi. Canfu ymchwil ansoddol fod cydweithio (cydweithio oddi fewn i ysgolion unigol a chydweithio ysgol-i-ysgol) yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddulliau ysgolion o gynllunio cwricwlwm ac addasiadau i addysgeg.
- **Ymholi proffesiynol:** lle roedd ymholi proffesiynol yn digwydd, ystyriwyd ei fod yn ffordd werthfawr o feithrin diwylliant myfyriol o fewn ysgolion a chefnogi arferion arloesol. Adroddodd rhai ysgolion eu bod wedi ymgorffori dulliau ymholi trwy ymchwil gydweithredol, gan gefnogi meddwl am addysgeg ac

arferion asesu newydd. Fodd bynnag, roedd ei fabwysiadu yn gymharol gyfyngedig, gyda data'r arolwg yn dangos llai o ymgysylltiad ymhlith athrawon nag ymhlith uwch arweinwyr.

- **Gallu wrth gynllunio cwricwlwm:** er bod disgwyl i uwch arweinwyr ac athrawon gyd-gynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, nid oes gan lawer o ymarferwyr arbenigedd penodol mewn cynllunio cwricwlwm, gan arwain at ddulliau anghyson ar draws lleoliadau. Fel y nodwyd uchod, mae tystiolaeth yn dangos bod hwn yn gwella lle mae arweinyddiaeth bwrpasol a rolau wedi'u diffinio'n glir, fodd bynnag, mae hyder cyffredinol ym maes cynllunio cwricwlwm yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig, yn enwedig ymhlith athrawon.
- **Canllawiau ac enghreifftio:** adroddodd ysgolion fod Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi sbarduno newid sylweddol i'r cwricwlwm, fodd bynnag, roedd llawer o ymarferwyr yn teimlo bod canllawiau Llywodraeth Cymru wedi bod yn aneglur, yn anghyson ac yn annigonol i ddiwallu eu hanghenion.
- **Amser a chapasiti:** adroddwyd bod diffyg amser ac adnoddau ariannol digonol i gefnogi gwaith cynllunio cwricwlwm, dysgu proffesiynol a chydweithio wedi bod yn gyfyngiad sylweddol.
- **Galluogedd athrawon:** croesawyd y rhyddid a'r hyblygrwydd a roddwyd o dan y Fframwaith yn gyffredinol gan ymarferwyr. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymarferwyr bryderon am amrywioldeb a thegwch profiad ledled Cymru ac roedd rhai ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi'u llethu neu nad oeddent yn hyderus.

**Deilliannau sy'n dod i'r amlwg**

9.13. Mae data gan ddysgwyr yn dangos bod eu profiadau o dan y Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol. Dywedodd llawer o ddysgwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi i wneud cynnydd a dywedodd rhai hefyd eu bod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso trwy fwy o berchnogaeth o'u dysgu. Dywedodd ymarferwyr fod mwy o ymgysylltiad ymhlith disgyblion yn eu dysgu, Fodd bynnag, mae canfyddiadau am gynnydd yn amrywio, gyda dysgwyr uwchradd ac anabl yn adrodd profiadau llai cadarnhaol na dysgwyr cynradd a dysgwyr nad ydynt yn anabl.

9.14. Er bod canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod perthynas rhwng galluogedd rhieni (teimlo eu bod yn cael eu gwrando, bod yn hyderus ac yn frwd i gefnogi addysg eu

plentyn) a'u hymgysylltiad wrth gynllunio’r cwricwlwm, mae lefel eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad ag ysgolion yn amrywio'n fawr. Mae eu hyder yn y cwricwlwm a'i allu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol yn gymysg, gyda rhieni dysgwyr anabl yn mynegi lefelau is o fodlonrwydd. Mae pryderon yn parhau ynghylch eglurder asesu a datblygu sgiliau, gan dynnu sylw at yr angen am gyfathrebu a chefnogaeth mwy cyson rhwng ysgolion a rhieni.

9.15. Mae ymrwymiad i’r Cwricwlwm i Gymru ymhlith uwch arweinwyr ac athrawon, gyda llawer yn croesawu egwyddorion y Fframwaith a'r hyblygrwydd y mae'n ei gynnig i deilwra dysgu i anghenion lleol, gan alluogi ysgolion i wireddu cwricwlwm mwy cynhwysol i bob dysgwr. Mae'r diwygiadau wedi cyfrannu at ymdeimlad ymysg uwch arweinwyr ac athrawon fod y cwricwlwm yn bwrpasol ac wedi annog creadigrwydd, gan arwain rhai ysgolion i werthuso o’r newydd eu hethos a'u dulliau. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn hyderus bod y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad a chynnydd dysgwyr, fodd bynnag, mae canfyddiadau'n awgrymu y bydd angen cefnogaeth a buddsoddiad parhaus i gynnal cynnydd a chyflawni deilliannau tymor hwy i ddysgwyr a'r system ehangach.

## 10. Materion i'w hystyried

10.1. Mae’r ddirnadaeth o’r gwerthusiad hwn yn codi tri mater pwysig i’w blaenoriaethu fel rhan o gam nesaf y daith o gyflawni’r cwricwlwm ar draws Cymru. Y blaenoriaethau hyn yw:

i. **Mynd i'r afael ag amrywioldeb ar draws y system wrth wireddu'r cwricwlwm:** mae hyn yn cynnwys amrywioldeb o ran y ffordd y deallwyd ac y dehonglwyd y Fframwaith, graddau ac ansawdd ei weithrediad, a’r ffordd y mae wedi cael ei brofi gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr.

ii. **Ymestyn a dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru,** gan annog mwy o uchelgais ymhlith ysgolion, lleoliadau a holl bartneriaid y system wrth ddefnyddio’r hyblygrwydd a gynigir gan y Fframwaith.

iii. **Cryfhau a gwella ansawdd gweithgarwch cynllunio cwricwlwm, addysgeg ac arferion asesu ymhellach** er mwyn cynyddu trylwyredd, meithrin gallu, a gwella arfer mewn ffyrdd sy’n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a deilliannau i bob dysgwr.

10.2. Mae’r galluogwyr a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn cynnig ffocws ar gyfer ymdrechion i wireddu’r cwricwlwm – arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, cydweithio, gallu wrth gynllunio cwricwlwm, canllawiau, amser a chapasiti. Mae ystyried y galluogwyr hynny yng ngoleuni’r blaenoriaethau penodol a amlinellwyd ynghylch mynd i’r afael ag amrywioldeb, dyfnhau dealltwriaeth, a gwella ansawdd arfer yn peri i ni gynnig tri philer a ddylai gynnig sylfaen ar gyfer y dull gweithredu er mwyn mynd i’r afael â’r blaenoriaethau. Rydym hefyd yn nodi pam bod pob piler yn bwysig ar gyfer y tri mater y rhoddir blaenoriaeth iddynt, a amlinellwyd uchod. Y pileri yw:

a. **Persbectif system** sy’n cydnabod cydgysylltiad a rhyngweithiadau rhwng rhannau o’r system (y sefydliadau, asiantaethau, mentrau, polisïau, rhaglenni, offerynnau ac adnoddau ac ati) sy’n cynorthwyo i wireddu’r cwricwlwm.
Mae persbectif system yn bwysig ar gyfer:

- **mynd i'r afael ag amrywioldeb** gan ei fod yn pennu fod y system gyfan yn gyfrifol am amrywioldeb – mae gan bob chwaraewr rôl i’w chyflawni, a rôl wrth gynorthwyo eraill

- **dyfnhau dealltwriaeth** oherwydd gall y rhai mewn gwahanol rannau o'r system ddwyn gwahanol bersbectifau i'r hyn y mae agweddau ar y cwricwlwm yn ei olygu, a gall persbectifau partneriaid ar draws y system helpu i wella a dyfnhau dealltwriaeth
- **gwella ansawdd arfer proffesiynol** oherwydd bod gwaith y rhai ar draws y system yn pennu pa mor addas yw'r amodau er mwyn i athrawon a dysgwyr archwilio arferion newydd

**b. Seilwaith ar ffurf rhwydweithiau ar gyfer arweinyddiaeth y cwricwlwm** sy'n a) cydnabod bod llwyddiant parhaus yn ddibynnol ar y perthnasoedd rhwng y rhai sy'n cynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm a b) sy'n canolbwyntio ar ac sy'n addas ar gyfer datblygu effeithlonrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm, datrys problemau a chynorthwyo gwelliant o ran y cwricwlwm, addysgu a dysgu. Mae'n bwysig tanlinellu y gall arweinwyr cwricwlwm fod yn arweinwyr uwch ac yn athrawon mewn ystod eang o swyddi, h.y. y rhai sy'n arwain a/neu sy'n cymryd rhan mewn rhwydweithiau gyda'r nod o arwain ar agweddau o wireddu'r cwricwlwm yn eu hysgolion neu eu lleoliadau.

Mae seilwaith ar ffurf rhwydweithiau ar gyfer arweinyddiaeth cwricwlwm yn bwysig ar gyfer:

- **mynd i'r afael ag amrywioldeb** gan ei fod yn creu rhwydweithiau o berthnasoedd a fydd yn caniatáu i wybodaeth, adnoddau, syniadau, arbenigedd ac ati lifo ar draws y system
- **dyfnhau dealltwriaeth** oherwydd ei fod yn meithrin perthnasoedd sy'n cysylltu pobl gyda gwahanol ddealltwriaeth a chryfderau mewn ffyrdd lle byddant yn dod yn adnoddau i'w gilydd
- **gwella ansawdd arfer proffesiynol** oherwydd ei fod yn cynorthwyo mwy o ymddiriedaeth sy'n hanfodol ar gyfer cymryd risgiau a ystyriwyd yn dda, rhoi cynnig ar bethau newydd, rhannu heriau a chynorthwyo dysgu cydweithwyr

**c. Dull gweithredu systematig a chadarn ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n cael ei ymwreiddio fel rhan o weithgarwch cynllunio cwricwlwm ysgolion.** Dylai hyn ganiatáu ymholi proffesiynol parhaus a thrylwyr, integreiddio dirnadaeth ac arbenigedd o waith ymchwil ac arfer, rhannu arbenigedd ar draws y system a

chydweithio sy’n sicrhau newid ac sy’n cryfhau gallu pawb dan sylw a chapasiti y system. Yn ymarferol, gallai hyn gynnwys defnyddio dulliau cyfranogol sy’n seiliedig ar ymholi tuag at ddysgu proffesiynol, sy’n cynorthwyo datblygiad proffesiynol ac sy’n cyfrannu at ddatblygu/gwireddu’r cwricwlwm ar yr un pryd.

Mae dull gweithredu systematig ac wedi’i ymwreiddio ar gyfer dysgu proffesiynol yn bwysig ar gyfer:

- **mynd i'r afael ag amrywioldeb** oherwydd ei fod yn gallu canolbwyntio ar rannau o’r system, ac agweddau ar y cwricwlwm lle y gwelir yr angen mwyaf, mewn ffordd systematig
- **dyfnhau dealltwriaeth** oherwydd bod ei gadernid yn caniatáu i sylw gael ei roi i fannau gwan, ynghyd â bylchau rhwng yr hyn sy’n digwydd mewn gwirionedd a’r hyn a fwriadwyd. Mae dulliau cadarn yn cynorthwyo athrawon i symud o ddealltwriaeth arwynebol i ddealltwriaeth ddofn o’r cwricwlwm y maent yn gweithio gydag ef, a sut y gall eu harfer wella er mwyn cynorthwyo hynny
- **gwella ansawdd arfer proffesiynol** oherwydd ei fod yn cydnabod annigonolrwydd datrysiadau cyflym, cyngor a thriciau, a’r angen am ddulliau mwy parhaus sy’n cael eu cysylltu’n agos â gwaith a chyd-destunau athrawon

# Atodiad A: Cyfeiriadau


Donaldson, G. (2015). Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales. Cardiff: Crown copyright.

OECD. (2014). Improving Schools in Wales: An OECD Perspective. Paris: Directorate for Education and Skills OECD

Llywodraeth Cymru. (2017). Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2021a). Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2021b). Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2022a). Egwyddorion ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2022b). Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2023a). Galluogi Dysgu. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2023b). Cenhadaeth ein Cenedl. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2024a). Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2024b). Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2024c). Canllawiau ar ddysgu 14-16. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025a). Deall Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025b). Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025c). Tegwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025d). Cynllunio cwricwlwm ac asesu ac addysgeg yn y Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025e). Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion. [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025f). Maes dysgu a phrofiad iechyd a lles yn y Cwricwlwm i Gymr (Llywodraeth Cymru, 2025f). [Cyrchwyd 12/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025g). Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr. [Cyrchwyd 18/12/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025h). Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o rieni/gofalwyr a dysgwyr. Cyrchwyd 18/12/2025]